

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (CYSAC)**

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAC) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun dydd Llun 8 Mehefin 2009 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

**Cynrychiolwyr Cyngor Sir Dinbych**

Cynghorwyr G.C. Evans, C. Hughes, G.A. Jones, M.M. Jones a J.G. Yorke

**Cynrychiolwyr Cyd Bwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych**

C. Harmsworth a L. Linaker

**Cynrychiolwyr Enwadau Crefyddol**

Parchedig. B.H. Jones (Cadeirydd), H. Ellis, R. Elms, B. Wyn Evans, S. Harris, M. Hatch, M. Ludenbach a E. Wright.

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Sion

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (AG), Pennaeth Gwella Ysgolion a Swyddog Gweinyddu (KEJ)

**YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd J.A. Davies, R. Hayward a M.B. Lloyd

**CYFNOD O DAWELWCH**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o dawelwch.

**1 MATERION BRYD**

Yn unol ag adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys a thrafod y materion canlynol oedd angen sylw bryd :-

- (i) Astudiaethau Crefyddol – Canllawiau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed
- (ii) Mater Personel – Arolygydd/Ymgynghorydd Astudiaethau Crefyddol

**2 CYFLWYNIADAU GAN BENAETHIAID YSGOLION AM GANLYNIADAU ARHOLIADAU**

(Daethpwyd â'r eitem hon ymlaen ar yr Agenda gyda chaniatad y Cadeirydd)

Yn y cyfarfod CYSAC diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2009, roedd yr aelodau'n ystyried canlyniadau arholiadau Addysg Grefyddol 2008. Er bod rhai canlyniadau boddhaol, nododd yr aelodau fod rhai ysgolion wedi sôn am ganlyniadau oedd yn gyson is na'r cyfartaledd cenedlaethol am fwy na thair blynedd. O ganlyniad, penderfynwyd gwahodd penaethiaid yr ysgolion arbennig hynny i gyfarfod nesaf CYSAC i roi darlun llawnach o'u canlyniadau arholiadau ac i drafod strategaethau ar gyfer gwella perfformiad yn y dyfodol. [Roedd copiau o grynodedb o ganlyniadau 2008 fel y'u trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf ynghyd â'r llythyr a anfonwyd at bob ysgol uwchradd yn dilyn y cyfarfod, wedi'u dosbarthu gyda'r Agenda).

Dywedodd y Cadeirydd eto mai pwrpas anfon gwahoddiad I ysgolion oedd rhoi darlun llawnach i CYSAC o'u canlyniadau arholiadau (fel data gwerth ychwanegol a ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar y canlyniadau) ac i drafod strategaethau ar gyfer gwella perfformiad yn y dyfodol. Roedd CYSAC hefyd am gynnig ei gefnogaeth i ysgolion a rhannu arfer da a syniadau.

#### **(i) Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones, y Rhyl**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs. M. Ludenbach, y Pennaeth Addysg Grefyddol (AG)oedd yn cynrychioli'r ysgol yn absenoldeb Mrs. C. Britton, y Pennaeth a oedd yn anffodus wedi gorfod mynd i gyfarfod a drefnwyd ynghynt.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad powerpoint gan Mrs. Ludenbach ar AG yn yr ysgol gan sôn am y cynnydd sylweddol a wnaed ers haf 2006 pan fethodd yr ysgol yr arolwg ac o'r herwydd cael ei rhoi ar fesurau arbennig. Rhoddodd wybodaeth am cefndir statws yr ysgol i CYSAC ynghyd â threfniadau staffio dilynol gan gynnwys ei phenodi hi fel athrawes gyflenwi yn Hydref 2006 i Bennaeth Adran ym Medi 2008 a phenodi Mrs. C. Britton yn Bennaeth dros dro ym Mehefin 2007 ac yna'n Bennaeth. Daeth yr ysgol allan o'r mesurau arbennig ym Mehefin 2008.

Tynnodd Mrs. Ludenbach sylw'r aelodau at gerrig milltir penodol yn ystod y cyfnod o 2006 hyd heddiw a rhoddodd ragfynegiadau ar gyfer 2009 i gynnwys y canlynol:-

- Roedd canlyniadau Haf 2007 yn dangos positif o 9.8% (o -10 i +9.8), gwelliant o tua 20%
- Roedd canlyniadau 2008 yn dangos gwahaniaeth perfformiad positif o 9.8% (wedi symud i fyny at 23%) oedd yn dangos gwelliant mewn perfformiad o bron i 24%; roedd y gymhariaeth genedlaethol er yn dal yn finws y canlyniad gorau dros y pum mlynedd ddiwethaf
- 2006 – 2008: Canlyniadau llawn TGAU dros y ddwy flynedd wedi mwy na dyblu o 22.4% i 55.8% / canlyniadau Cwrs Byr yn 2007 wedi gostwng ond roedd 2008 yn dangos gwelliant o 13%
- Rhagfynegiant o 42% ar gyfer 2009 (rhagfynegiant o finws) oherwydd y newid yn y criw o ddisgyblion gyda'r holl bynciau allweddol yn dangos rhagfynegiant is ar gyfer 2009
- Roedd rhagfynegiadau Blwyddyn 11 ar gyfer 2009 ar darged ar hyn o bryd a rhagfynegiant Blwyddyn 10 yn 49% gan ddisgwyl cynnydd pellach ym Mlwyddyn 11

Hysbyswyd yr aelodau hefyd am y ffactorau i'w hystyried wrth graffu ar y canlyniadau gan fod gan yr ysgol y canran uchaf o ddisgyblion symudol, lleiafrifol ethnig a myfyrwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (SEN) o fewn y sir. Hefyd, roedd amddifadedd cymdeithasol gyda 32.7% o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim. Nid oedd gan staff newydd unrhyw brofiad o addysgu TGAU AG oedd yn orfodol yn yr ysgol.

Derbyniodd CYSAC fanylion nifer o fentrau'r oedd y tîm AG yn gweithio arnyn nhw ynghyd â datblygu strategaethau TGAU ymhellach. Yn unol â chyfarwydddebau esgobaethol roedd yr holl ddisgyblion yn awr yn dilyn y Cwrs TGAU llawn mewn Cristnogaeth Gatholig. O safbwynt canlyniadau'r dyfodol, roedd data Yellis ar gael am y tro cyntaf i adlewyrchu perfformiad dosbarth 2009. I gloi, dywedodd Mrs. Ludenbach fod mwy o debygolrwydd ym Mlwyddyn 7 – 2009 o dderbyn disgyblion mwy cytbwys; roedd yr adran AG yn adran oedd yn datblygu o fewn ysgol oedd yn symud ymlaen o dan arweinyddiaeth gadarn a rhagwelir y byddai'r canlyniadau'n adlewyrchu'r ffactorau hynny yn 2010.

Yn ystod y drafodaeth oedd yn dilyn, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi amrywiol gwestiynau gyda Mrs. Ludenbach gan gyfeirio'n arbennig at: golli'r chweched dosbarth o'r ysgol a goblygiadau hyn ar ddarpariaeth ar sail ffydd, y nifer a'r defnydd o Gynorthwy-wyr Cefnogi Dysgu yn yr ysgol ac argaeledd adnoddau i ddelio â'r nifer uchel o ddisgyblion ag SEN. Cafodd yr aelodau eu calonogi wrth glywed am y gwelliannau yn y perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf er waetha'r anawsterau a wynebaw'r ysgol a llongyfarchwyd yr ysgol ar ei chyflawniadau yn hyn o beth. Nododd CYSAC hefyd y gyfran uchel o ddisgyblion ag SEN a theimlai y dylid cael adnoddau ychwanegol i gefnogi'r ysgol oherwydd hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Ludenbach am ei hadroddiad cynhwysfawr am ddarpariaeth AG yn yr ysgol gan gynnig cefnogaeth a dymuniadau gorau CYSAC i'r ysgol yn y dyfodol.

## **(ii) Ysgol Uwchradd Dinbych**

Croesawodd y Cadeirydd Alison Duncan y Pennaeth a Karl Lewis, Pennaeth AG Ysgol Uwchradd Dinbych i'r cyfarfod.

Diolchodd Mrs. Duncan i'r aelodau am y gwahoddiad i'r cyfarfod a soniodd am nifer o sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan yr Arolygydd/Cynghorydd AG pan ymwelodd â'r ysgol ynghynt yn y flwyddyn er mwyn amlygu'r arfer da oedd wedi'i sefydlu'n barod o safbwynt darparu AG ac ethos yr ysgol. Yna, cyfeiriodd at y wybodaeth ystadegol (dosbarthwyd yn y cyfarfod) gyda manylion y gweddillebau cymedrig fesul pwnc yn yr ysgol, data dadansoddiad gwerth ychwanegol Astudiaethau Grefyddol; perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill Sir Ddinbych a'r cyfartaledd yng Nghymru; a chanlyniadau arholiadau 2008 TGAU a Lefel AS.

Wrth ystyried yr ystadegau a ddarparwyd, tynnodd Mrs. Duncan a Mr. Lewis sylw'r aelodau'n arbennig at y canlynol:-

- Roedd y disgyblion AG yn perfformio'n llawer gwell o gymharu â disgyblion mewn pynciau eraill CA3 a TGAU ac yn llawer iawn gwell yn lefel A.
- O safbwynt Gwerth Ychwanegol, roedd disgyblion AG CA3 a 4 a Lefel A wedi cyflawni'n uwch na'r disgwyl
- Er bod perfformiad yn AG Cyfnod Allweddol 4 wedi disgyn yn 2007, dim ond 1% o dan gyfartaledd Cymru oedd yn 2008
- Roedd graddau TGAU yn dangos bod y bechgyn wedi gwneud yn well na'r merched felly roedd angen delio â'r gwahaniaeth hwn ond roedd yn gadarnhaol iawn bod cynifer o fechgyn wedi gwneud mor dda
- Ar draws yr ysgol i gyd, roedd 56% o'r graddau yn C neu uwch ac roedd disgyblion AG yn perfformio'n dda o safbwynt perfformiad gwerth ychwanegol
- Roedd y duedd TGAU AG yn dangos gwelliant sylweddol yn 2008
- Roedd nifer mawr o ddisgyblion yn symud ymlaen at Lefel A ac roedd ansawdd y canlyniadau'n dda
- Roedd 19 o ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad Lefel A ym Mlwyddyn 13 a 23 ymgeisydd ym Mlwyddyn 12
- Y llynedd, AG oedd y pwnc unigol cryfaf o safbwynt y nifer o ymgeiswyr ar draws yr ysgol i gyd.

Dywedodd Mrs. Duncan fod Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol oedd yn tangyflawni ond yn y cyd-destun hwnnw, roedd y perfformiad ar lefel uchel yn Addysg Grefyddol. Y ffactorau i'w hystyried wrth graffu ar ganlyniadau'r arholiadau oedd: y ffaith bod cyfran arbennig o uchel o'r disgyblion yn yr ysgol yn fechgyn ac mewn ysgolion o'r fath, roedd canlyniadau'n dueddol o fod yn isel; nid oedd yr ysgol wedi cael digon o adnoddau a byddai mwy o'r gyllideb yn cael ei gyfeirio at adrannau ar Gyfnodau Allweddol 3 a 4; dim ond un arbenigwr AG eilradd oedd yn yr ysgol a'r mater o absenoldeb parhaus. O safbwynt yr absenoldebau, roedd yr aelodau'n siomedig i ddeall bod nifer o'r rhain yn cael eu cefnogi gan rieni a dywedodd Mrs. Duncan ei fod yn fater diwylliannol. Er bod gweithdrefnau monitro absenoldebau ac ymyraethau dan reolaeth ar gael, teimlai bod angen gwneud absenoldeb yn fater proffil uchel.

O safbwynt y wybodaeth ystadegol a ddarparwyd, eglurodd Mr. Lewis y gostyngiad mewn perfformiad yn 2007 a chyfeiriodd at y cyfoeth o strategaethau sydd wedi'u trefnu (dosbarthwyd yn y cyfarfod) i gynyddu'r cyraeddiad ymhellach gan gynnwys materion yn ymwneud ag adnoddau; dyrannu amser; hyfforddiant allanol; addasrwydd ymgeiswyr; cefnogaeth i gydweithwyr a disgyblion a pharhau â'r arfer da sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i sicrhau bod gwerth ychwanegol yn parhau'n gadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Duncan a Mr. Lewis am eu cyflwyniad llawn ac addysgiadol a llongyfarchodd yr ysgol am eu cyraeddiadau. Cynigiodd gefnogaeth CYSAC i'r ysgol a dymunodd yn dda iddyn nhw yn y dyfodol.

### **(iii) Ysgol Uwchradd Prestatyn**

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Phil Pierce, Pennaeth a Dawn Jones, Pennaeth AG Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Gyda chymorth cyflwyniad power point, cyflwynodd Mr. Pierce wybodaeth am gefndir yr ysgol oedd y drydedd fwyaf yn y wlad ac o'r herwydd roedd ganddi strwythur

addysgu hynod o glir gyda phob pwnc yn gydradd o fewn y system. Roedd yn falch o allu dweud am gysylltiad hir yr ysgol a'i chyfranogiad gyda'r gymuned ffydd ym Mhrestatyn.

O safbwynt y ffactorau oedd yn dylanwadu ar ganlyniadau'r arholiadau, dywedodd Mr. Pierce:

- fod data Yellis (gallu gwybyddol) yn dangos fod cyrhaeddiad y disgyblion yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- roedd hawl i ginio am ddim wedi codi gan adlewyrchu'r mesur o amddifadedd gyda lefel y disgyblion ag amddifadedd cymdeithasol yn uwch na'r lefel gyfartalog
- roedd y mudo i mewn i'r dref wedi newid yr ysgol ac wedi creu heriau
- roedd nifer sylweddol uwch o ymgeiswyr ar gyfer Cwrs Llawn TGAU o gymharu ag ysgolion eraill o fewn y sir gydag Addysg Grefyddol yn cael ei ystyried fel pwnc prif lif ac yn cael ei ystyried yn uchel gan yr ysgol
- pedwar ymgeisydd ar ddeg yn unig wedi'u rhoi i mewn ar gyfer y Cwrs Byr oherwydd pan oedd yn bosibl, roedd y disgyblion yn cael eu rhoi i mewn ar gyfer y Cwrs Llawn

Dyweddodd Mr. Pierce fod y data gweddillebau cymedr fesul pwnc yn dangos perfformiad da ar gyfer Addysg Grefyddol.

O safbwynt y strategaethau ar gyfer gwella perfformiad yn y dyfodol, dywedodd Mr. Pierce am:-

- gynllun datblygu'r ysgol a blaenoriaethau strategol sy'n gysylltiedig â gwella safonau
- lansio adran ryngweithiol ar wefan yr ysgol ar gyfer gwaith cartref
- gynnydd a gwiriadau asesu disgyblion ym mhob pwnc
- ddefnyddio'r system bydi o fewn yr ysgol
- uned gynhwysiad ar safle ar gyfer dysgwyr bregus
- ymagwedd Meddwl Agored, menter sy'n canolbwyntio ar brosiect/sgiliau
- y Ganolfan Ddysgu a agorwyd yn ddiweddar
- ddefnyddio eglwysi fel adnodd

Roedd strategaethau penodol AG yn cynnwys: gwersi cyffrous a chreadigol; deunyddiau adolygu mewnol; cyrsiau perthnasol; diwylliant llwyddiant; mynediad cynnar; arweinyddiaeth, monitro a gwerthuso, ac adnoddau safonol.

Yn ystod y cyflwyniad, dangoswydd lluniau o waith a gweithgareddau disgyblion ac estynnodd Mr. Pierce wahoddiad agored i aelodau CYSAC ymweld â'r ysgol. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau am batrymau amddifadedd; y lefel o gefnogaeth i ddisgyblion ag SEN a'r defnydd o'r wefan fel adnodd i ddisgyblion. Dywedodd Mr. Pierce y dylid cymharu perfformiad ysgolion yng nghydestun yr amgylchedd yr oedd yr ysgolion hynny'n gweithio ynddyn nhw. Soniodd am argaeledd adnoddau ICT i ddisgyblion yn yr ysgol a'r defnydd o'r ganolfan ieuencid galw i mewn yng Ngallt Melyd. Roedd adnoddau papur hefyd ar gael i geisio sicrhau nad oedd rhai disgyblion arbennig dan anfantais a bod yn sensitif i

anghenion disgyblion o gefndir difreintiedig. Yn olaf, cadarnhaodd Mr. Pierce fod y lefel o staff cefnogi'n broblem i'r ysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Pierce a Ms. Jones am y cyflwyniad goleuedig a sicrhaodd hwy o gefnogaeth barhaus CYSAC.

Er bod cyflwyniadau o bum ysgol wedi'u hamserlenni ar yr Agenda, dywedwyd wrth yr aelodau ei bod yn anffodus bod dwy o'r ysgolion wedi methu mynychu cyfarfod heddiw. Darllenodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr. Meurig Rees, Pennaeth Ysgol Glan Clwyd yn diolch i CYSAC am y gwahoddiad ond yn dweud bod y dyddiad wedi cyd-daro â chyfarfod rhanbarthol yn yr ysgol felly byddai'n anfon crynodeb yn unig fel ymateb. Roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi cyfarfod y Dirprwy Bennaeth ynghyd â'r uwch dîm reoli a Phennaeth Gwella Ysgolion i drafod strategaethau'r dyfodol yn yr ysgol. Roedd y rhain yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Dywedodd y Dirprwy Bennaeth y byddai'n barod i fynychu CYSAC ar ddyddiad gwahanol os byddai'r aelodau'n dymuno. Fodd bynnag, awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd efallai y byddai'r aelodau'n dymuno gweld canlyniadau eleni cyn estyn gwahoddiad pellach. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG hefyd fod ymddiheuriad am fethu â mynychu wedi'i dderbyn oddi wrth Mr. Mark Edwards, Pennaeth Ysgol Uwchradd y Rhyl. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod yr ysgol wedi'i rhoi ar fesurau arbening a dywedodd fod Estyn yn ymweld â'r ysgol yr wythnos honno a theimlai na fyddai'n briodol i'r Pennaeth na'r uwch dîm Rheoli fod i ffwrdd o'r ysgol ar yr adeg honno. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod y ddwy ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i wahoddiad CYSAC a chydabu a derbyniodd y rhesymau pam eu bod wedi methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw.

Yna, bu'r aelodau'n trafod y profiad cadarnhaol o wahodd ysgolion i CYSAC i roi darlun llawnach a chipolwg i lwyddiant AG o fewn ysgolion a'r modd yr oedd darpariaeth AG wedi'i threfnu. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i CYSAC ystyried y ffactorau niferus oedd yn cyfrannu at ganlyniadau'r arholiadau a'r anawsterau oedd yn wynebu rhai ysgolion. Teimlai'r Cadeirydd yn hyderus y byddai'n arferiad y byddai CYSAC yn dal i'w gynnal. Cytunodd y Pennaeth Gwella Ysgolion fod y cyfarfod wedi bod yn werthfawr o safbwynt yr ysgolion a CYSAC gan roi cyfle i rannu profiadau ac arfer da.

#### **PENDERFYNWYD:-**

- (a) *derbyn cyflwyniadau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones; Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Uwchradd Prestatyn;*
- (b) *y dylid anfon llythyr at yr ysgolion yn diolch iddyn nhw am eu hamser ac i annog y Pennaethiaid Adrannau yn eu hymdrechion i weithio tuag at ganlyniadau uwch; a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyron uchod i'r ysgolion dan sylw.*

### **3 COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAC) a gynhaliwyd dydd Llun, 2 Chwefror 2009 (dosbarthwyd ynghynt).

### **Materion yn Codi –**

Tudalen 2 – Eitem Rhif 2 Cofnodion: Materion yn Codi: Adrodd am Asesu AG – dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei benodiad fel Prif Safonwr Addysg Grefyddol CA3 gan ychwanegu ei bod yn galonogol bod AG yn cael ei thrin yn yr un modd â holl bynciau eraill y cwricwlwm. Roedd y Cadeirydd yn falch o glywed am y cyfartaledd rhwng y pynciau a llongyfarchodd yr Arolygydd/ Ymgynghorydd ar ei benodiad.

Tudalen 8 – Eitem Rhif 6 – Canolfan y Santes Fair yn Llyfrgell Sant Deiniol (Datrysiad (d)) – gofynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am farn yr aelodau a oedd Newyddion AG yn dal i fod yn gyhoeddiad gwerth am arian o gofio'r arian a gafwyd oddi wrth yr awdurdod. Cafwyd sylw cadarnhaol am y cynnwys ond mynegwyd rhywfaint o siom nad oedd y cyhoeddiad yr hyn roedd yn arfer bod. O gofio'r ymateb cymysg, awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd y dylid gofyn i'r ysgolion am eu barn a bod yr aelodau'n cael clywed yr adborth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Tudalen 8 – Eitem Rhif 7 – Cymdeithas CYSAC Cymru – cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at gyfarfod WACYSAC ar 24 Mehefin yn Sir Ddinbych a derbyniodd rai aelodau gadarnhad o'u presenoldeb yn y digwyddiad hwnnw.

Ail adroddodd y Cynghorydd M.M. Jones sylwadau blaenorol CYSAC y dylid rhoi'r cyfieithiad priodol i SACRE sef CYSAC yn fersiwn Cymraeg y cofnodion.

### **PENDERFYNWYD:-**

- (a) *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAC a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2009 fel cofnod cywir, a*
- (b) *gofyn i ysgolion am eu barn am y cyhoeddiad Newyddion AG a bod eu hadborth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod CYSAC yn y dyfodol i'w ystyried.*

## **4 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON ESTYN**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) yn dadansoddi canlyniadau arolygon diweddar ar bum ysgol a gynhaliwyd rhwng Mai 2008 a Chwefror 2009 wrth ddarparu Datblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol Diwylliannol (SMSC) ac Addysg Grefyddol pan oedd yn rhan o'r arolwg. Cynhaliwyd arolwg yn Ysgol VC Borthyn, Rhuthun; Ysgol Bro Famau; Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun; Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Mair, y Rhyl ac roedd hanes byr am bob ysgol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynoded byr o'r darganfyddiadau oedd yn berthnasol i bob ysgol gan egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau. Codwyd tri chwestiwn allweddol yn adran SMSC yr adroddiad y bydd yr ysgolion perthynol yn delio â nhw. Roedd yn braf nodi'r 88 sylw cadarnhaol ar draws

y bum ysgol oedd yn gorbwyso'n llwyr yr 17 sylw negyddol oedd yn ymwneud â phedair ysgol. O safbwynt Cyd-Addoli, nododd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG iddo ymweld ag Ysgol Uwchradd y Rhyl nifer o weithiau a dywedodd fod gweithgareddau'r ysgol gyfan o safbwynt cyd-addoli'n wych. Roedd y mater a godwyd o fewn yr adroddiad yn cyfeirio at addoliadau gan diwtoriaid dosbarth – roedd rhai ysgolion uwchradd yn cael problemau gyda hyn. Cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi trafod y mater hwn gyda'r ysgolion perthnasol. Roedd y rhan Addysg Grefyddol o'r adroddiad yn cyfeirio at dair ysgol yn unig: Borthyn, Bro Famau ac Ysgol Uwchradd y Rhyl gyda 55 sylw cadarnhaol ar draws y tair ysgol. Nid oedd un diffyg pwysig i'w weld yn ysgolion Borthyn a Bro Famau. O safbwynt y diffygion a welwyd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl, atgoffwyd yr aelodau bod yr ysgol wedi'i rhoi ar fesurau arbennig ac, o ganlyniad, roedd yr awdurdod lleol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i ddelio â'r problemau o fewn yr ysgol. Ar nodyn positif, roedd Addysg Grefyddol yn un o'r pynciau gorau yn yr ysgol, gyda Chelfyddyd yr unig un oedd yn well.

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) *derbyn yr adroddiad a'i nodi;*
- (b) *anfon llythyr at yr ysgolion a gafodd arolwg yn eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd a chynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn unrhyw faes datblygu neu brif broblemau sydd angen delio â nhw, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddsbarthu'r llythyrau uchod.*

**5 CYMDETHAS CYSACau CYMRU**

**5(a) Cofnodion WACYSAC – 13 Mawrth 2009**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gofnodion drafft o gyfarfod Cymdeithas CYSACau Cymru (WACYSAC) a gynhaliwyd yn Nhŷ Brynmenyn, Penybont ar Ogwr ar 13 Mawrth 2009 (dosbarthwyd ynghynt) er gwybodaeth i'r aelodau.

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd am y cyfarfod lle'r oedd ef a Mrs. M.B. Lloyd yn bresennol oedd wedi bod yn brofiad buddiol a gwerthfawr – roedd manylion hynw gyda'r cofnodion drafft.

**PENDERFYNWYD** *derbyn cofnodion WACYSAC a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2009.*

**5(b) Cyfarfod WACYSAC– 24 Mehefin 2009**

Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau fod cyfarfod yr haf o WACYSAC i'w gynnal yn Sir Ddinbych eleni ar 24 Mehefin yng Ngwesty'r Wild Pheasant, Llangollen. Ychwanegodd fod gwahoddiad i holl aelodau'r CYSAC fyddai'n lletya fynychu ac anogodd aelodau i wneud ymdrech i fynychu.



Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd M.M. Jones, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y bydd gwahoddiad i fynychu'r digwyddiad yn cael ei anfon at Gadeirydd y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD** nodi'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y WACYSAC y mae Sir Ddinbych yn ei groesawu ar 24 Mehefin.

## **6 CANLLAWIAU ADDYSG GREFYDDOL AR GYFER POBL IFANC 14 I 19 OED**

(Ystyriwyd y mater hwn fel mater o frys – roedd y Cadeirydd wedi cael rhybudd ohono ar ddechrau'r cyfarfod)

Tynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG sylw'r aelodau at Ganllawiau Addysg Grefyddol ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed a gyhoeddwyd gan DCELLS (Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) – roedd copiau ar gael yn y cyfarfod i aelodau eu casglu. Cymeradwyodd y ddogfen i CYSAC a theimlai y byddai'n ddefnyddiol i aelodau fod yn ymwybodol o gyngor DCELLS i ysgolion.

## **7 MATER PERSONEL – AROLYGYDD/YMGYNGHORYDD AG**

(Ystyriwyd yr eitem hon fel mater o frys gan fod y Cadeirydd wedi rhoi rhybudd ohono ar ddechrau'r cyfarfod)

Hysbysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau ei fod wedi cytuno i secondiad blwyddyn i ymgymryd â'r swydd o Gyfarwyddwr Gweithredol Canolfan St. Giles ar gyfer AG a Datblygu Ffydd yn Wrecsam ond yn gweithio'n agos gyda Chanolfan y Santes Fair ym Mhenarlag. Nid oedd wedi cytuno ar y dyddiad dechrau gan ei fod yn ddibynnol ar gael rhywun yn ei le ar gyfer y swydd bresennol. Fodd bynnag, roedd yn bosibl y byddai wedi dechrau yn ei swydd cyn cyfarfod nesaf CYSAC yn Hydref. Ar ran CYSAC, dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ei fenter newydd a manteisiodd ar y cyfle liddiolch iddo am y gwaith anferthol oedd wedi'i wneud gydag ysgolion ar draws y tri awdurdod a CYSAC a'i gyfraniad gwerthfawr dros nifer o flynyddoedd.

Cyn cau'r cyfarfod, atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai cyfarfod nesaf CYSAC yn cael ei gynnal ar 12 Hydref ac y byddai'r Is-gadeirydd, y Cyngorydd M.M. Jones yn ymgymryd â swydd y Cadeirydd. Hefyd, atgoffodd gynrychiolwyr yr athrawon y byddai'n gofyn am enwebiadau ar gyfer yr Is gadeirydd newydd yn unol â chylch gwaith CYSAC.

Yn olaf, diolchodd y Cadeirydd i Gyfieithydd a Chlerc CYSAC am eu cyfraniad i'r cyfarfod a diolchodd yn arbennig i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei holl waith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00p.m.

**Cyngor Sir Ddinbych**  
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**  
**(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:		12fed Hydref 2009
Eitem ar y Rhaglen:	<b>5</b>	Manylion yr Adroddiad
<u><i>Cefndir i'r Adroddiad:</i></u>		
Penderfynodd CYSAG rai blynyddoedd yn ôl gychwyn arfer o wahodd ysgolion i wneud cyflwyniad ar ddarpariaeth AG ac addoli cyfunol.		
<u><i>Diben yr adroddiad:</i></u>		
I'r aelodau ddod i wybod am ddarpariaeth AG ac addoli cyfunol yn Ysgol Llewelyn, y Rhyl ac ystyried materion yn ymwneud ag AG ac addoli cyfunol a all godi.		
<u><i>Argymhellion:</i></u>		
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Derbyn y cyflwyniad</li><li>▪ Anfon llythyr o ddiolch at Bennaeth yr Ysgol yn cydnabod y cyflwyniad a roddwyd gan Mrs Maxine Bradshaw.</li></ul>		

**Cyngor Sir Ddinbych**  
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**  
**(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:

12fed Hydref 2009

Eitem ar y  
rhaglen:

**6**

Manylion yr adroddiad

*Cefndir yr adroddiad:*

Mae'n ofyniad statudol i'r CYSAG fonitro darpariaeth AG ac addoli cyfunol mewn ysgolion, ac mae'n arfer ganddo dderbyn a dadansoddi adroddiadau archwilio Estyn ym mhob cyfarfod.

*Diben yr Adroddiad:*

Hysbysu'r Aelodau o ganlyniadau Adroddiadau Archwilio diweddar Estyn ar ysgolion.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad.
- Anfon llythyr at bob ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa bod gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG a Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael mewn perthynas ag unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol sydd angen eu trin.
- Gofyn bod yr AALL yn dosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.
- Derbyn y cyflwyniad.

**SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU'R AROLWG**  
**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL**  
**SIR DDINBYCH**

**12 Hydref 2009**

**4 Ysgol**

<b>Ysgol</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Arolygydd Rg.</b>	<b>Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol / Cwestiwn Allweddol 3</b>	<b>Addysg Grefyddol</b>
<b>Ysgol Llanelwy VP</b>	<b>19/01/09</b>	<b>Will Williams</b>	<b>Lisa Davies</b>	<b>Heb ei arolygu</b>
<p><i>Mae Ysgol Llanelwy VP yn derbyn y mwyafrif o'i disgyblion o'r ardal agos, er bod tua 25% o'r disgyblion yn byw mewn trefi a phentrefi cyfagos, sydd y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol. Mae yna 74 o ddisgyblion llawn amser yn ogystal â 29 o blant meithrin rhan amser. Saesneg yw prif iaith yr aelwydydd. Mae 2% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg, gydag 1 disgybl yn derbyn cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 9% o'r disgyblion â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae tua 10% o'r disgyblion wedi eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, does dim un disgybl sydd â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol.</i></p>				
<b>Ysgol Gynradd Christchurch</b>	<b>09/03/09</b>	<b>Linda J Williams</b>	<b>Nicholas Williams</b>	<b>Heb ei arolygu</b>
<p><i>Mae ysgol gynradd Christchurch yn nhref y Rhyl mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf / Amcan 1. Mae nifer o ddisgyblion yn byw i'r Gorllewin ac i'r De o'r dref. Mae'r ddwy ward yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan tua 63% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, Ar adeg yr arolwg roedd yna 357 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr a 66 disgybl o oed meithrin. Saesneg yw iaith gartref 92% o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 8% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Does dim un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae 113 o ddisgyblion (29%) wedi eu nodi fel rhai sydd Anghenion Dysgu Ychwanegol; mae gan 2 ddisgybl ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig. Mae 9 disgybl wedi cael eu heithrio o'r ysgol dros dro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o ddisgyblion wedi mynychu nifer o ysgolion. Mae'r ysgol wedi ennill Marc Safon Sgiliau Sylfaenol ar 3 achlysur, Baner Werdd EcoSgolion a chyfnod 2 o'r Wobr Ysgolion Iach. Ers yr arolwg diwethaf yn 2003 mae tir yr ysgol wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol i ddarparu 4 ystafell ddosbarth y tu allan a maes chwarae aml-ddefnydd.</i></p>				
<b>Ysgol Gynradd Henllan</b>	<b>05/05/09</b>	<b>Edward G Morris</b>	<b>Merfyn Lloyd Jones</b>	<b>Merfyn Lloyd Jones</b>
<p><i>Mae Ysgol Gynradd Henllan yn gwasanaethu pentref Henllan a'r gymuned amaethyddol leol. Mae 9% o'r disgyblion wedi eu cofrestru fel rhai sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Saesneg yw iaith yr aelwyd tua 90% o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae yna 59 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o'r dosbarth derbyn tan Flwyddyn 6. Mae 16 o ddisgyblion wedi eu nodi fel rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig gan gynnwys 8 sydd angen 'gweithredu gan yr ysgol a mwy' a 4 sydd â datganiadau o Anghenion Arbennig. Ers Mis Hydref 2002 cafodd polisi iaith a chategori'r ysgol eu newid o Gategori C i Gategori B, gan ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg Naturiol, yn ôl canllawiau Llywodraeth y Cynulliad. Cymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae Saesneg yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2. Y bwriad yw cynnig digon o gyfleoedd i sicrhau bod disgyblion yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus erbyn amser symud i'r</i></p>				

ysgol uwchradd. Yn ogystal â'r Prifathro, sydd â chyfrifoldeb am un dosbarth dri diwrnod yr wythnos, mae yna un athro llawn amser a dau athro rhan amser.

<b>Ysgol Bro Elwern</b>	<b>22/06/09</b>	<b>Phil Mostert</b>	<b>John Blake</b>	<b>Heb ei arolygu</b>
-------------------------	-----------------	---------------------	-------------------	-----------------------

Mae hon yn ysgol naturiol Gymraeg ym mhentref gwledig Gwyddelwern, ger Corwen. Mae 21 o'r disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae gan 19% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae yna 6 disgybl ar gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig ond does dim un â datganiad. Mae tua 25% o ddisgyblion yn dod o gefndir lle mai Cymraeg yw'r brif iaith ond mae'r ysgol yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn ddwyieithog erbyn iddyn nhw symud i'r ysgol uwchradd. Ers 2006 mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 53 i'r 49 presennol.

**Dadansoddiad o Adroddiadau'r Arolwg  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Sir Ddinbych  
12 Hydref 2009**

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A  
DIWYLLIANNOL**

**SYLWADAU CADARNHAOL**

**Darpariaeth ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a  
Diwylliannol 4 Ysgol**

- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig. (*Llanelwy VP*)
- Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig. (*Bro Elwern*)

**Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig 4 Ysgol**

- Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol trwy brofiadau sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o ddaearyddiaeth a hanes Cymru. (*Llanelwy VP*)
- Mae cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol, gan gynnwys y Ddarpariaeth ag Adnoddau, yn adlewyrchu agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig yn briodol. Mae'r ysgol yn cynnig i'r disgyblion amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned ac ar draws Gogledd Cymru, sy'n gwella'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymreig. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae gan yr ysgol bolisi clir a chyfres o ganllawiau wedi eu hysgrifennu'n dda i hybu dwyieithrwydd. Mae'r staff i gyd yn gwneud pob ymdrech i ddysgu a gwella'u Cymraeg. Maen nhw'n defnyddio cyfarchion a cheisiadau sylfaenol yn ogystal â geiriau o ganmoliaeth yn ystod y gwersi. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae gofynion y Cwricwlwm Cymreig yn cael eu hateb. Mae sylw da'n cael ei roi i astudio Cymru fodern trwy'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig sy'n treiddio i waith yr ysgol mewn nifer o bynciau. Mae disgyblion yn dysgu am dreftadaeth Cymru trwy astudio arweinwyr e.e. Dewi Sant a'r Esgob William Morgan. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

- Mae nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Urdd Gobaith Cymru ac mae'n amlwg eu bod yn cael budd o, ac yn mwynhau'r, profiadau. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog disgyblion yn dda iawn. Mae cyflwyno agweddau o bynciau trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg yn hyrwyddo'u datblygiad yn effeithiol. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae sgiliau dwyieithog disgyblion yn cael eu hyrwyddo mewn dull priodol ac mae gan yr ysgol ethos Gymraeg gref. Mae pwyslais cryf yn cael ei roi ar y Cwricwlwm Cymreig fel rhan o gwricwlwm yr ysgol a thrwy ei gynnwys yn arddangosfeydd o waith y disgyblion. (*Bro Elwern*)

### **Datblygiad / darpariaeth foesol (a chymdeithasol) 4 Ysgol**

- Mae yna ddarpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. (*Llanelwy VP*)
- Mae darpariaeth ar gyfer dealltwriaeth ddiwylliannol, cymdeithasol a moesol yn dda gyda nodweddion eithriadol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael ei feithrin yn effeithiol iawn. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae sylw da'n cael ei dalu i ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliant oddi fewn i gwricwlwm cymdeithasol yr ysgol. (*Bro Elwern*)

### **Gweithgareddau / cyfleoedd allgyrsiol**

### **4 Ysgol**

- Mae profiadau dysgu disgyblion yn cael eu hymestyn a'u cyfoethogi trwy amrywiaeth dda o sesiynau chwaraeon amser cinio a chlybiau ar ôl ysgol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei wella ymhellach drwy ymweld â manau o ddiddordeb addysgiadol a thrwy groesawu ymwelwyr, sy'n rhannu eu harbenigedd a'u profiad gyda disgyblion. (*Llanelwy VP*)
- Mae'r ysgol yn hynod o effeithiol mewn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgwyr y tu fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth helaeth yn yr awyr agored sy'n cael ei ddefnyddio i wella'r cwricwlwm. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan amrywiaeth eithriadol o weithgareddau chwaraeon, cerddorol ac allgyrsiol gaiff eu darparu yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol. Mae'r fath weithgareddau'n cyfoethogi profiadau disgyblion ac maen nhw'n cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd academiaidd a chymdeithasol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Roedd gan yr ysgol amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymdeithasol megis ffeiriau, cyngherddau a gweithgareddau eraill. Mae'r agweddau yma o waith yr ysgol yn amlwg iawn. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gaiff eu trefnu a'r ymwelwyr gaiff eu gwahodd i'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda. Ymhlith yr ymwelwyr diweddar roedd yna artist ac arbenigwr ar byramidiau. Ymhlith yr ymweliadau diweddar roedd rhai i Ganolfannau'r Urdd yng Nglan Llyn a Thryweryn (*Bro Elwern*)

## Datblygiad diwylliannol

4 Ysgol

- Mae yna ddarpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. (*Llanelwy VP*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dealltwriaeth ddiwylliannol, cymdeithasol a moesol y disgyblion yn dda gyda nodweddion eithriadol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae darpariaeth arbennig o dda ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion trwy gyfleoedd wedi eu cynllunio'n ofalus megis yr Wythnos Ryngwladol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael ei feithrin yn effeithiol iawn. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae sylw da'n cael ei dalu i ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yng nghwricwlwm cyffredinol yr ysgol. (*Bro Elwern*)

## Cysylltiadau gyda / ymwneud â'r gymuned leol

4 Ysgol

- Mae ymwelwyr o'r gymuned leol, gan gynnwys aelodau o'r heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans a thân, wedi cael effaith bositif ar addysg y disgyblion ac maen nhw'n rhannu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr sy'n ymwneud â'r gweithle. (*Llanelwy VP*)
- Mae cysylltiadau gyda chlerigwyr lleol, swyddog cyswllt yr heddlu, busnesau a'r clwb pêl-droed yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o natur y gymuned. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae nifer o rieni, gan gynnwys y gymuned yn helpu yng ngwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn bwysig iawn i'r pentref a'r ardal. Mae ymwelwyr cyson a siaradwyr sy'n dod i'r ysgol yn cael eu trefnu'n bwrpasol i ymestyn a chyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae dylanwad y gweithgareddau hyn i'w weld yn y safonau uchel a gyflawnir. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae profiadau dysgu disgyblion yn cael eu cyfoethogi gan bartneriaethau a chysylltiadau da a phartneriaeth gyda rhieni a'r gymuned. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae'r ysgol yn defnyddio ymwelwyr i atgyfnerthu egwyddorion megis pwysigrwydd helpu eraill sy'n llai ffodus. (*Bro Elwern*)

## Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy

4 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth bresennol i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys nodweddion da sy'n gorbwyso'r diffygion. (*Llanelwy VP*)
- Mae'r ysgol yn ymddwyn mewn modd cynaliadwy. (*Llanelwy VP*)
- Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth eithriadol o ddatblygiad cynaliadwy. Mae yna Glwb Eco sefydledig sydd a'i aelodau'n gyfrifol am gynnal gardd yr ysgol. Hefyd mae yna bwylgor Eco a gyda'i gilydd maen nhw wedi ennill statws y Faner Werdd yn y fenter EcoSgolion. Maen nhw'n ailgylchu papur, poteli plastig a chartonau llaeth ac maen nhw'n cynnal ymgyrchoedd casglu sbwriel rheolaidd. Mae yna gynhwysydd compost a

chasgen ddŵr i arbed dŵr glaw. Mae aelodau eco'n cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod goleuadau wedi eu diffodd a drysau wedi eu cau er mwyn arbed ynni. Mae'r ysgol wedi ennill y wobwr gyntaf ddwywaith yn y gystadleuaeth Rhyl yn ei Blodau. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

- Mae'r ysgol wedi ymrwmo i osod sylfeini dysgu gydol oes. Mae blaenoriaethau cenedlaethol megis EcoSgolion ac Ysgolion Iach, Sgiliau Sylfaenol a gwobr y Cyngor Prydeinig am waith dinasyddiaeth fyd-eang wedi eu hen sefydlu fel rhan o fywyd ysgol. Mae'r gwaith a wneir i gefnogi adfywiad cymunedol yn agwedd arbennig. Mae hyn yn cynnwys ymwneud â phrosiect coetir cymunedol Glan Morfa a'r ailddatblygu ar lan y môr. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae'r sylw delir i ddatblygiad cynaliadwy'n dda. Mae'r ysgol wedi derbyn y wobwr Efydd am y gwaith hwn. Mae'r ysgol hefyd yn ysgol Eco. Mae gwaith wedi ei wneud ar fywyd gwylt, y tirlun ac afonydd tra bod ailgylchu ac arbed ynni'n cael sylw dyledus. Mae'r ysgol yn Ysgol Iach gyda phwyslais da ar hyrwyddo iechyd. Mae'r ysgol newydd dderbyn tystysgrif am ei hail achrediad. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae sylw cynyddol yn cael ei roi i addysg mewn cynaladwyedd. Mae'r ysgol wedi ennill statws efydd yn yr ymgyrch EcoSgolion. Mae gwaith defnyddiol ar ailgylchu'n cael ei wneud yng nghyd-destun perthynas agos yr ysgol â busnes ailgylchu metel lleol. Trwy ddethol ac anfon amrywiaeth o fetelau i'r cwmni mae'r disgyblion yn cael profiad o brisiau cyfnewidiol sy'n gweithredu yn y farchnad fetelau. Mae achrediad Cam 1 yn y Cynllun Ysgolion Iach wedi ei gyflawni. Mae dealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud ag iechyd a ffitrwydd yn dda. (*Bro Elwern*)

### **Ansawdd addoli ar y cyd**

**3 Ysgol**

- Mae trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd o ansawdd da ac yn ateb anghenion statudol. Mewn cyfnodau addoli ar y cyd ac amserau cylch, mae disgyblion yn cael eu hannog i barchu ei gilydd ac oedolion. (*Llanelwy VP*)
- Mae gweithredoedd o addoli ar y cyd yn cyfarfod ag anghenion statudol ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cyfarfod ag anghenion statudol ac maen nhw'n ddigwyddiadau llwyddiannus lle mae teimladau Cristnogol, moesol ac ysbrydol yn cael eu rhannu. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

### **Cynnydd disgyblion / Ennill hyder / sgiliau**

**3 Ysgol**

- Mae yna drefniadau priodol i sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'r sgiliau allweddol o iaith a chyfathrebu, defnyddio a chymhwyso mathemateg a TGCh. (*Llanelwy VP*)
- Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth dda ar gyfer datblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn eithriadol. Mae sgiliau datrys problemau ac archwilio disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda. Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sgiliau yma'n cael eu nodi ym mhob cynllun gwaith a chynlluniau gwersi. Mae disgyblion yn nodi'n hyderus ble maen nhw wedi defnyddio sgiliau penodol yn eu gweithgareddau a'u gwersi. Mae'r ysgol wedi ennill y Marc



Safon Sgiliau Sylfaenol Ysgolion Cynradd ar dri achlysur. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

- Mae datblygu sgiliau allweddol yn cael sylw da ac maen nhw'n cael eu gwau'n ofalus i gynlluniau. Llwyddodd yr ysgol i adnewyddu Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn ystod 2006. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

### **Rhaglen ar gyfer / Effaith y ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol 3 Ysgol**

- Mae addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn cael ei ddatblygu mewn dull bwriadol ac effeithiol ac mae'r rhaglen yn cael ei chyfuno'n ofalus i themâu tymhorol pob dosbarth. (*Llanelwy VP*)
- Mae addysg iechyd yn cael ei gynnig trwy'r ysgol. Mae addysg rhyw'n cael ei ddysgu yn unol â pholisi'r ysgol. Mae'r ysgol yn cymryd ystyriaeth ardderchog o ddatblygiad sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae ystyriaeth addas yn cael ei roi i'r fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

### **Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg byd / Cysylltiadau rhyngwladol 3 Ysgol**

- Mae gan y ddarpariaeth bresennol i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang nodweddion da sy'n gwrthbwysio diffygion. (*Llanelwy VP*)
- Mae sylw addas yn cael ei roi i ddinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm daearyddiaeth a gyda'r cysylltiadau diweddar gydag ysgol yn Romania. (*Llanelwy VP*)
- Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda gyda chysylltiad wedi ei sefydlu â Gambia. Mae'r ysgol wedi derbyn gwobr y Cyngor Prydeinig am Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Mae Wythnos Ryngwladol lwyddiannus wedi ei chynnal gyda phob dosbarth wedi ei gysylltu â gwlad wahanol. Mae gan yr ysgol ymrwymiad cryf i ddefnyddio nwyddau Masnach Deg. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae ymdrechion da'n cael eu gwneud mewn rhai pynciau i feithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae cysylltiadau e-bost wedi eu sefydlu gydag ysgol yn Sweden ac mae llythyrau a chaneuon ar CD wedi eu cyfnewid. (*Bro Elwern*)

### **Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a menter**

**2 Ysgol**

- Mae disgyblion yn cael cyfle da i fod yn gyfrifol am wahanol agweddau o fywyd yr ysgol, i gymryd camau cyntaf ac i gymryd penderfyniadau wrth gynrychioli eu cyd-ddisgyblion ar Gyngor yr Ysgol. (*Llanelwy VP*)
- Mae'r ysgol yn meithrin dealltwriaeth arbennig o natur byw fel rhan o gymuned a natur cymryd cyfrifoldeb trwy'r system *prefect*, cynorthwywyr swyddfa a chapeiniaid tîm. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

### **Gwybodaeth/ Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau neu draddodiadau eraill**

**2 Ysgol**

- Mae disgyblion yn ymdrin â diwylliannau a chrefyddau gwahanol mewn modd aeddfed a chydwybodol. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r amrywiadau crefyddol, diwylliannol ac economaidd sy'n bodoli mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae gan ddisgyblion o bob oed ymwybyddiaeth dda o amodau byw yn y trydydd byd. (*Bro Elwern*)

### **Elusennau ac achosion da**

**2 Ysgol**

- Mae ysgolion yn cyfrannu'n rheolaidd i weithgareddau cymunedol ac elusennau. (*Ysgol Gynradd Henllan*)
- Mae atgyfnerthu pwysigrwydd helpu eraill sy'n llai ffodus yn cael ei ddatblygu ymhellach trwy drefnu casgliadau ar gyfer nifer o elusennau. (*Bro Elwern*)

### **Cyfraniad addoli ar y cyd i ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol**

**2 Ysgol**

- Mae gweithgaredd dyddiol addoli ar y cyd yn cyfarfod ag anghenion statudol ac yn gwneud cyfraniad positif i ddatblygiad ysbrydol plentyn. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)
- Mae'r sesiynau o addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o faterion perthnasol ac yn eu hannog i barchu eraill. (*Bro Elwern*)

### **Cadw / hyrwyddo gwerthoedd / moesgarwch / parch**

**1 Ysgol**

- Mewn cyfnodau o addoli ar y cyd ac adegau amser cylch, mae'r disgyblion yn cael eu hannog i barchu ei gilydd ac oedolion. Mae'r profiadau hyn yn gwneud cyfraniad da. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

### **Cyfraniadau disgyblion i weithredoedd o addoli ar y cyd**

**1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig mewn gwasanaethau crefyddol, cyngherddau ac eisteddfodau. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

### **Cyfleoedd i fyfyrion**

**1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn cael cyfle da i fyfyrion'n dawel ar faterion pwysig a sut maen nhw'n berthnasol i'w bywydau eu hunain. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg**

**1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn cael eu dysgu i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

### **Nodweddion sesiynau o addoli ar y cyd**

**1 Ysgol**

- Mae sesiynau o addoli ar y cyd yn cyfarfod â gofynion statudol ac maen nhw'n achlysuron llwyddiannus lle mae teimladau Crefyddol, moesol ac ysbrydol yn cael eu rhannu. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

**Datblygiad ysbrydol** **1 Ysgol**

- Mae datblygiad ysbrydol yn cael ei feithrin yn effeithiol iawn. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

**Polisi ar hiliaeth / Hyrwyddo harmoni hiliol** **1 Ysgol**

- Mae gwahaniaethau hiliol yn cael eu trin gyda sensitifrwydd. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth ac arweiniad da i sicrhau nad oed unrhyw ragfarn addysgol, ieithyddol neu gefndir cymdeithasol. (*Bro Elwern*)

**Staff / Oedolion fel modelau rôl** **1 Ysgol**

- Mae staff yn darparu modelau rôl da iawn. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

**Codi materion moesol ar gyfer eu trafod / astudio / hystyried** **1 Ysgol**

- Mae sesiynau 'Amser Cylch' a gweithgareddau dosbarth yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol. Mae hyn i gyd yn eu helpu i barchu gwirionedd a chyfiawnder. (*Ysgol Gynradd Henllan*)

**Gwaith Cyngor yr Ysgol** **1 Ysgol**

- Mae cyfleoedd da'n cael eu cynnig i ddisgyblion wneud penderfyniadau wrth gynrychioli eu cyd-ddisgyblion ar Gyngor yr Ysgol. (*Llanelwy VP*)

**Cyfleoedd cyfartal** **1 Ysgol**

- Mae'r polisi cyfleoedd cyfartal eglur a'r ethos gynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol megis chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau cymdeithasol eraill. Mae disgyblion yn ymwybodol bod gofyn iddyn nhw ddangos parch at eraill, beth bynnag fo eu cefndir. (*Bro Elwern*)

**Delio ag amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio** **1 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn weithgar mewn taclo anfantais gymdeithasol: er enghraifft mae'r ysgol yn rhoi cymhorthdal i helpu i dalu cost hyfforddiant offerynnau cerdd ac mae hyn yn golygu bod yna alw helaeth. Mae'r ysgol yn herio stereoteipio ac mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gyflawni llwyddiant ac i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

## Ymweliadau / ymwelwyr addysgol

1 Ysgol

- Mae'r ysgol yn defnyddio ymwelwyr i atgyfnerthu egwyddorion megis pwysigrwydd helpu eraill sy'n llai ffodus. (*Bro Elwern*)

## SYLWADAU NEGYDDOL

### Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig

2 Ysgol

- Dyw'r Cwricwlwm Cymreig ddim wedi ei gynllunio a'i ddatblygu'n drefnus. (*Llanelwy VP*)
- Dyw'r defnydd o Gymraeg achlysurol ddim yn ddigon i ddatblygu sgiliau disgyblion yn raddol yng Nghyfnod Allweddol 2. (*Ysgol Gynradd Christchurch*)

### Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg byd / Cysylltiadau Rhyngwladol

1 Ysgol

- Does yna ddim strategaeth glir i ddatblygu'r agwedd yma o'r gwaith ymhellach. (*Llanelwy VP*)

### Cyfraniad addoli ar y cyd i'r ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol

1 Ysgol

- Mae cyfraniad disgyblion i addoli ar y cyd yn finimol. (*Bro Elwern*)

### Cyfraniadau disgyblion i addoli ar y cyd

1 Ysgol

- Mae cyfraniad disgyblion i addoli ar y cyd yn finimol. (*Bro Elwern*)

### Datblygiad Ysbrydol

1 Ysgol

- Mae pwyslais annigonol yn cael ei roi ar eu datblygiad ysbrydol. (*Bro Elwern*)

## Addysg Grefyddol

*Dim ond un ysgol a archwiliwyd ar Addysg Grefyddol – Ysgol Gynradd Henllan.*

## Sylwadau Cadarnhaol

### Safonau cyflawniad

- Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
- Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

## **Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth**

- Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 wedi ymweld â mannau addoli lleol ac mae hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arferion Cristnogol. Maen nhw'n trafod symbolau'r Eglwys yn hyderus.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae disgyblion yn deall mai Cristnogaeth yw'r brif grefydd yng Nghymru ac maen nhw'n gallu siarad am rai nodweddion o fywyd y Cristion. Maen nhw'n gallu trafod gwasanaeth crefyddol yn effeithiol. Maen nhw'n gwybod am wyliau Cristnogol ac maen nhw'n gallu trafod yn wybodus e.e. pwrpas bedydd a digwyddiadau'r Nadolig a'r Pasg. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arferion Cristnogol wedi elwa'n sylweddol o dalu ymweliad â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy.

## **Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynhwysedd crefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth**

- Mae eu gwybodaeth p grefyddau eraill yn datblygu'n dda ac maen nhw'n gallu trafod prif nodweddion a ffordd o fyw'r Hindw a'r Iddew. Maen nhw'n gallu enwi a disgrifio gwahanol wrthrychau sy'n cael eu defnyddio, gan egluro'u pwrpas a'u hystyr.
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dechrau deall bod yna grefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth yn cael eu harfer o gwmpas y byd.

## **Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Straeon o'r Beibl**

- Yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2, mae'r disgyblion yn ymwybodol bod y Beibl yn llyfr sanctaidd. Mae ganddyn nhw wybodaeth dda am straeon y Beibl. Maen nhw'n gallu adrodd straeon o'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn llwyddiannus.

## **Gwybodaeth / Dealltwriaeth o gysyniadau / themâu crefyddol**

- Mae'r disgyblion yn deall pwrpas gweddi.

## **Dim Diffygion**

- Doedd yna ddim diffygion pwysig

## **Ymweliadau ag eglwysi / capeli / mannau addoli lleol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 wedi ymweld â mannau addoli lleol ac mae hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arferion Cristnogol.
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 o arferion Cristnogol wedi cael budd sylweddol o ymweliad â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy.

### **Cyfansoddi / Ysgrifennu eu gweddïau eu hunain**

- Mae disgyblion yn ysgrifennu gweddïau personol at ddibenion penodol ac maen nhw'n deall pwrpas gweddïau.

### **Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o fywydau enwog**

- Mae disgyblion yn disgrifio nodweddion bywydau pobl enwog sydd wedi bod yn arweinwyr pwysig, megis Dewi Sant a'r Esgob William Morgan.

### **Cyfleoedd i ddatblygu / mynegi credoau personol**

- Mae disgyblion yn mynegi eu barn yn dda ar bynciau megis cred, gofal a chyfeillgarwch, ac maen nhw'n ymwybodol o amgylchiadau bywyd pobl sy'n llai ffodus na nhw'u hunain. Maen nhw'n trafod pwysigrwydd edrych ar ôl y byd a'u rôl nhw yn y broses.

**Cyngor Sir Ddinbych**  
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**  
**(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod

12fed Hydref 2009

Eitem ar y  
Rhaglen:

**7**

Manylion yr Adroddiad

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae'n ofyniad statudol i'r CYSAG gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith a bod yr Adroddiad Blynyddol hwn ar gael i PADGOS erbyn 31ain Rhagfyr.

*Diben yr Adroddiad:*

Adnabod a chofnodi gwaith CYSAG ar gyfer y flwyddyn o fis Medi 2008 i Orffennaf 2009

*Argymhellion:*

- Cymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newidiadau, fel cofnod cywir.
- Gofyn bod yr AALL yn cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg, ei argraffu a'i ddosbarthu i bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, ac i eraill fel sy'n ofynnol dan y gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**Adroddiad Blynyddol**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog  
ar Addysg Grefyddol  
Sir Ddinbych**

**2008 – 2009**



## CYNNWYS

	Tudalen Rhif:
<b>1. Crynodeb Gweithredol .....</b>	<b>2 – 3</b>
<b>2. Cyngor a roddwyd i'r AALI: .....</b>	<b>4 - 11</b>
a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytûn .....	4 - 7
b) Dulliau addysgu, dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynol Athrawon .....	7 - 8
c) Addoli ar y Cyd .....	8 – 11
<b>3. Materion Eraill: .....</b>	<b>12 – 13</b>
a) Materion lleol .....	12
b) Materion cenedlaethol: .....	12 - 13
i. Estyn .....	12
ii. AADGOS .....	12 - 13
iii. CCYSAGC .....	13
iv. Cwynion .....	13
<b>4. Atodiadau: .....</b>	<b>13 – 23</b>
a) Cyfansoddiad CYSAG .....	13 – 14
b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd .....	14
c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad .....	14
d) Tystiolaeth â ffocws: ystadegau .....	15 - 23

## Yr Adroddiad Blynyddol.

### 1. Crynodeb Gweithredol

<i>Testunau/Materion:</i>	<i>Cyngor a roddwyd:</i>	<i>Gweithredwyd Gan yr AALI:</i>
AG: Maes Llafur Cytûn	Roedd y Maes Llafur Cytûn newydd a'r Canllaw Cynhwysfawr ar gyfer AG wedi cael croeso mewn ysgolion, ac roedd yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu'r newidiadau i'r Adolygiad Cwricwlwm.	✓
AG: Safonau	Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygu, bod llythyrau i'w hanfon i ysgolion yn llongyfarch nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd neu Swyddogion Gwella Ysgolion wrth fynd i'r afael â materion; ar ôl penodi Swyddog Gwella Ysgolion newydd i'r AALI arweiniodd model amnewid ar gyfer yr ymweliadau Adolygiad Cefnogol at ffocws ar ysgolion uwchradd a'u canlyniadau arholiad. Bod nifer o brifathrawon i'w gwahodd i wneud cyflwyniadau i CYSAG ynghylch canlyniadau arholiad a ffyrdd o'u gwella, gyda chymorth CYSAG. Bod llythyrau i'w hanfon i bob ysgol ynghylch mynediad i'r Cwrs Byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol; holi'r Esgobaeth Babyddol ynghylch camau yr oedd yn eu cymryd i gynorthwyo'r Ysgol Uwchradd Babyddol i wella ei chanlyniadau AG; a dylai'r dadansoddiad o ganlyniadau arholiad gynnwys canlyniadau Safon UG yn y dyfodol.	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓
AG: Dulliau Addysgu	Roedd y cyfarwyddyd a'r cymorth ychwanegol ar gyfer y Maes Llafur Cytûn newydd yn cynnwys cyfarwyddyd ar addysgu a dysgu; cyngor ar fethodoleg a gynhwysir mewn sesiynau HMS ar gyfer y Maes Llafur Cytûn newydd, ac mewn ymweliadau ag ysgolion gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG.	✓ ✓
AG: Dewis o Ddeunyddiau Addysgu	Dim cyfarwyddyd ffurfiol, ond mae'r cymorth a'r cyfarwyddyd newydd ar gyfer y Maes Llafur Cytûn newydd yn cynnwys cyfeiriad at rai deunyddiau addysgu; dosbarthodd yr AALI y CD sy'n codi o Grŵp Rhwydwaith CyngACC ac o'r wefan RE Quest; roedd sesiynau HMS ar y Maes Llafur Cytûn newydd yn cynnwys amrediad eang o adnoddau i athrawon eu hastudio a'u gwerthuso.	✓ ✓ ✓

AG: Darparu HCA	Dim ymweliadau'n bosibl eleni.	
Addoli ar y Cyd	Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygu, bod llythyrau i'w hanfon i ysgolion yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu Swyddogion Gwella Ysgolion i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;	✓
Materion Eraill: Lleol	Cydlynedd Rhwydwaith Dysgu 14 – 19 wedi'i wahodd i annerch CYSAG; rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad ar ei ymweliad ag Uganda; bod camau i'w cymryd i lenwi swyddi gwag ar bwyllgorau CYSAG.	✓ ✓ ✓
Materion Eraill: Cenedlaethol	Bod yr Aelodau'n derbyn diweddariadau rheolaidd ar Adroddiadau Arolygu Estyn neu ddogfennau'n ymwneud ag AG ac Addoli ar y Cyd; yr Aelodau i gael gwybod am ddatblygiadau a mentrau yr ymgymherwyd â hwy gan APADGOS; bod y CYSAG yn cadw ei aelodaeth o CCYSAGC a bod cynrychiolwyr yn mynychu ac yn adrodd yn ôl ar gyfarfodydd y gymdeithas.	✓ ✓ ✓
Cwynion	Dim cwynion wedi'u derbyn.	

## 2. Cyngor a roddwyd i'r AALI

### a) Addysg Grefyddol

#### Y Maes Llafur Cytûn

O ymweliadau gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd ag ysgolion, ac o adroddiadau a wnaed gan athrawon a phrifathrawon, roedd y Maes Llafur Cytûn newydd (wedi'i seilio ar y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 - 19 oed yng Nghymru*) a'r Canllaw Cynhwysfawr i Addysg Grefyddol ategol wedi'i groesawu gan athrawon ac ysgolion, ac roedd yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio cynlluniau gwaith ac ymagweddau at y pwnc. Roedd llawer o ganmol wedi bod ar y deunydd - hyd yn oed geisiadau i bynciau eraill yn y cwricwlwm ddilyn y model cymorth i athrawon yr oedd AG wedi'i ddarparu.

O ystyried y ffaith fod y Maes Llafur Cytûn diwygiedig yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2008, ni fu dim gwerthusiad ffurfiol o'i effeithiolrwydd. Yr un modd, ni fu dim gwerthusiadau ffurfiol o effeithiolrwydd y deunydd cymorth a chyfarwyddyd sydd wedi dod gyda'r maes llafur newydd.

#### Safonau

##### Canlyniadau arholiad

Derbyniodd cyfarfod mis Chwefror CYSAG fanylion canlyniadau arholiad 2008.

Roedd yr Aelodau'n falch fod rhai o'r canlyniadau wedi dangos gwelliant, ond yn siomedig iawn fod eraill dal yn is na lefelau cenedlaethol. Y canlyniadau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol Cwrs Byr TGAU oedd fwyaf siomedig yn gymaint â'u bod yn is na ffigurau cenedlaethol hyd yn oed er bod rhai wedi dangos cynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i drafodaethau gyda'r Pennaeth Gwella Ysgolion, a oedd newydd ei benodi, roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd wedi ymweld â phob un o'r ysgolion uwchradd ac wedi trafod eu canlyniadau a chamau a oedd yn cael eu cymryd gan yr ysgol i wella'r canlyniadau. Roedd gan bob ysgol broses o adolygu canlyniadau a cheisio canfod materion a all fod wedi effeithio ar y canlyniadau.

Yn ystod y trafodaethau hir ar ganlyniadau 2008, a'r tablau sy'n dangos perfformiad cronnos dros saith mlynedd, gwnaed nifer o benderfyniadau gan CYSAG, fel a ganlyn:

- Bod prifathrawon pedair neu bump o ysgolion ble'r ymddangosai fod y canlyniadau'n is nag y gellid fod wedi'i ddisgwyl i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf CYSAG, i wneud cyflwyniad o'r ffactorau sy'n effeithio ar eu canlyniadau, a'r camau yr oedd yr ysgol yn ceisio eu cymryd i wella'r canlyniadau. Byddai trafodaethau'n dilyn wedyn ynghylch sut y gallai CYSAG gynorthwyo'r ysgolion yn y broses hon hefyd.
- Bod llythyr gan CYSAG i'w anfon i bob ysgol uwchradd i'w hannog i gofrestru disgyblion ar gyfer y Cwrs Byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol;
- Gofyn i'r Awdurdod Esgobaethol Pabyddol hysbysu CYSAG o'r camau yr oedd yn eu cymryd i gynorthwyo'r ysgol uwchradd Babyddol i wella ei chanlyniadau;
- Bod dadansoddi canlyniadau arholiad yn y dyfodol yn cynnwys canlyniadau safon UG.

Roedd cyfarfod mis Mehefin CYSAG yn cynnwys y cyflwyniadau gan dri o'r prifathrawon ysgolion uwchradd (roedd dau wedi methu bod yn bresennol am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth, ac wedi cynnig dod i gyfarfod yn y dyfodol). Cafodd aelodau CYSAG fod y broses yn fwyaf buddiol wrth egluro canlyniadau a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt, yn ogystal â dangos y camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â materion a godwyd gan ganlyniadau. Roedd y cyfarfod wedi rhoi'r cyfle i aelodau CYSAG ofyn cwestiynau ac ystyried ffyrdd y gallai'r ysgolion gael eu helpu yn eu gorchwyl. Teimlid y dylai'r broses gael ei hystyried i ysgolion eraill y Sir yn y dyfodol.

O ystyried y ffaith fod y Maes Llafur Cytûn blaenorol wedi mabwysiadu'r Disgrifiadau Lefel Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol fel y'u cyhoeddwyd yn 2001, a bod y Maes Llafur Cytûn diwygiedig newydd yn cynnwys Disgrifiadau Lefel Cenedlaethol sydd wedi'u diwygio ychydig, cytunwyd y bydd disgwyl i ysgolion adrodd fesul Lefelau i'r CYSAG a'r Awdurdod Lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Teimlid y byddai hyn yn cyfannu'r rhagbrofi gan CBAC/APADGOS ac yna'r cynllun cenedlaethol ar gyfer Safoni AG yng Nghyfnod Allweddol 3.

### Adroddiadau Arolygu

Dadansoddwyd adroddiadau AG mewn tair ysgol yn ystod y flwyddyn. Roedd y canlyniadau o ran safonau fel a ganlyn:

<b>Cyfnod Allweddol</b>	<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
CA 1		2			
CA 2		2			
CA 3		1			
CA 4		1			
Ôl 16		1			

Wrth ddadansoddi'r adroddiadau hyn, y nodweddion da a nodwyd yn yr adroddiadau ar gyfer dwy ysgol neu fwy oedd:

<i>Nodweddion Da a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu:</i>	<i>Nifer yr ysgolion:</i>
Safonau cyflawniad	3
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth	3
Gwybodaeth/Dealltwriaeth/Cynnwys crefyddau heblaw Cristnogaeth	3
Gwybodaeth / Dealltwriaeth o gysyniadau / themâu crefyddol	3
Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Storiâu'r Beibl	2
Dim Diffygion	2
Cyfleoedd i drafod materion / teimladau / materion moesol	2
Dealltwriaeth o gymuned ac o gyfrifoldeb am yr aelodau	2

Roedd yr holl nodweddion da eraill ar gyfer ysgolion unigol, ac roeddynt fel a ganlyn:

- Ymweliadau ag eglwysi / capeli / manau addoli lleol
- Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o fywydau enwog
- Cyfleoedd / gallu i fynegi eu syniadau / barn eu hunain
- Cynefindra â themau technegol / geirfa
- Darparu dosbarthiadau arholiad yng Nghyfnod Allweddol 4 / Ôl 16 mewn Astudiaethau Crefyddol
- Ymwybodol o effaith cred ar ffordd o fyw
- Datblygu sgiliau allweddol drwy waith AG
- Parhad a chynnydd gwaith
- Perthnasu eu bywydau eu hunain â bywydau eraill
- Galw i gof a defnyddio dysgu blaenorol

Roedd yr holl feysydd yn peri pryder a godwyd yn yr adroddiadau ar gyfer ysgolion unigol:

- Cyfleoedd / Gallu i fynegi eu syniadau / barn eu hunain
- Darparu dosbarthiadau arholiad yn CA4 / Ôl 16 mewn Astudiaethau Crefyddol
- Datblygu sgiliau allweddol drwy waith AG
- Sgiliau dysgu annibynnol
- Presenoldeb

Yn ôl y broses sydd wedi hen ymsefydlu, ysgrifennwyd at ysgolion ar ôl i'w Hadroddiad Arolygu gael ei ystyried gan CYSAG, a'u canmol am eu nodweddion da, yn cynnig cymorth gydag unrhyw ddiffygion, a'u cynghori i ystyried eu hunain

mewn perthynas â'r diffygion a nodwyd yn yr holl adroddiadau yn y sesiwn hwnnw. Mae ysgolion wedi cael y broses hon yn werthfawr a defnyddiol.

### Ymweliadau Adolygiad Cefnogol

Roedd y CYSAG wedi dweud wrth yr Arolygydd/Ymgynghorydd am drafod y ffocws ar gyfer gwaith yn y dyfodol gydag ysgolion gyda'r Pennaeth Gwella Ysgolion a oedd newydd ei benodi. Y prif bwyslais yn ystod y flwyddyn oedd i fod â ffocws ar ysgolion uwchradd, fel y cyfeiriwyd ato uchod. Er y byddai ceisiadau am help a chymorth gan ysgolion cynradd yn cael eu cwrdd hefyd, nid oedd dim ymweliadau adolygiad cefnogol wedi'u targedu ar gyfer ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn; roedd yr ysgolion uwchradd â'u ffocws yn gyfan gwbl ar ganlyniadau arholiad.

#### **b. Dulliau addysgu**

Roedd y CYSAG a'r AALI wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn newydd, a oedd yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a chyflwyno AG.

Yn ogystal, mae cyngor ar ddulliau addysgu wedi'i gynnwys yn ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd ag ysgolion, ar gyfer cymorth cynlluniedig neu ar gyfer sesiynau HMS yn yr ysgol.

Roedd sesiynau HMS wedi'u cynnal fel rhan o feini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell (BSF) ar fynd i'r afael â'r cwricwlwm ysgol diwygiedig. Roedd nifer dda wedi dod i'r sesiynau hyn a chafwyd hwy'n ddefnyddiol ac addysgiadol gan ysgolion.

O ran barnu effaith y cyngor a'r cymorth a roddwyd ynghylch dulliau addysgu, nid yw'r CYSAG wedi ymgymryd ag unrhyw werthusiadau ffurfiol, ond mae'r ymatebion gan ysgolion wedi dangos y gwerthfawrogir y cymorth ac y'i ceir yn fuddiol.

Mae CYSAG yn cael cyflwyniadau a wneir gan athrawon ym mhob cyfarfod hefyd. Yn ystod y flwyddyn, roedd cyflwyniad gan ysgol gynradd a chan dair ysgol uwchradd wedi'u derbyn. Mae cynlluniau i ddal ymlaen â'r drefn yma yn y dyfodol yn eu lle.

#### **Dewis adnoddau addysgu**

Nid yw'r CYSAG wedi cynghori ysgolion yn ffurfiol ar fater prynu adnoddau addysgu, gan dybio bod hyn yn fater i'r ysgolion eu hunain. Serch hynny, drwy ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd – ar gyfer cymorth cynlluniedig, ac ar

gyfer sesiynau HMS yn yr ysgol – fe roddir cyngor. Yn ogystal, gwneir ceisiadau penodol i'r Arolygydd/Ymgynghorydd am gyngor ar adnoddau addysgu.

Fel rhan o'r sesiynau HMS ynglŷn â'r Maes Llafur Cytûn newydd, roedd amrediad llawn o adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu wedi'u darparu i athrawon eu hastudio fel rhan o'r diwrnod, a thynnwyd sylw at rai adnoddau penodol sy'n arbennig o werthfawr. Yn ogystal â'r Canllaw Cynhwysfawr ar gyfer AG a ddosbarthwyd i bob ysgol ynghyd â'r Maes Llafur Cytûn newydd, roedd ysgolion wedi derbyn pecyn pum CD ar Gristnogaeth, fel y'i cynhyrchwyd gan RE Quest, ynghyd â CD o'r enw "RE and ICT: Some Ideas (2)" a gynhyrchwyd o ganlyniad i Grŵp Rhwydwaith CyngACC.

### **Darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**

Am nifer o resymau ni fu hi'n bosibl ymweld yn ystod y flwyddyn â Sefydliad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon nag iddynt hwythau ymweld, ond gobeithir y gellir parhau'r broses hon ryw flwyddyn yn y dyfodol.

### **c) Addoli ar y Cyd**

#### **Monitro'r ddarpariaeth**

##### Adroddiadau Arolygu

Fel rhan o'r broses fonitro, dadansoddir Adroddiadau Arolygu Estyn o ran addoli ar y cyd, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD), ac agweddau ar Gwestiwn Allweddol 3. Caiff y rhain eu hel at ei gilydd a'u nodi gan CYSAG. Anfonir llythyrau i ysgolion ar ôl eu hystyried yn CYSAG, gan ganmol arfer da a chynnig cymorth fel y gall fod angen.

Dros y flwyddyn dadansoddwyd adroddiadau arolygu deg o ysgolion. Nid oedd barn ar y ddarpariaeth ar gyfer YMCD bob amser yn cael ei mynegi, ond roedd y patrwm a ddaeth i'r golwg fel y'i nodwyd yn y tabl isod.

<b>Cyfnod Allweddol</b>	<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
CA 1		7			
CA 2		7			
CA 3			1		
CA 4					
Ôl 16					



Roedd y nodweddion da a nodwyd mewn ysgolion yn niferus, ac mae'r tabl isod yn dangos y rheini a wnaed ar ddwy ysgol neu fwy.

<i>Nodweddion da YMCD a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu</i>	<i>Nifer yr ysgolion</i>
Gweithgareddau / cyfleoedd allgyrsiol	10
Rhaglen ar gyfer / Effaith y ddarpariaeth ABCh	10
Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg Byd / cysylltiadau Rhyngwladol	10
Ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a'i hyrwyddo	10
Darpariaeth ar gyfer Datblygiad YMCD / Gradd Cwestiwn Allweddol 3	9
Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig	9
Cysylltiadau â / Ymwneud â'r gymuned leol	8
Cynnydd Disgyblion / Ennill hyder / sgiliau	8
Cyfleoedd i fyfrio	6
Elusennau ac achosion da	6
Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau neu draddodiadau eraill	6
Cadw / Hyrwyddo gwerthoedd / moesau da / parch	5
Ymweliadau / ymwelwyr addysgol	4
Cyfraniad addoli ar y cyd at ddatblygiad YMCD	4
Datblygiad diwylliannol	4
Datblygiad ysbrydol	3
Delio ag amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio	3
Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r da a'r drwg	3
Datblygiad cymdeithasol / Rhyngweithio / Sgiliau rhyngpersonol	3
Natur gweithredoedd o addoli ar y cyd	3
Cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd	3
Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a menter	2
Amcanion / Ethos Cyffredinol	2
Cyfraniad AG at ddatblygiad YMCD	2
Cynllunio ar gyfer addoli ar y cyd	2
Polisi hiliaeth / hybu cytgord hiliol	2
Ansawdd gweithredoedd o addoli ar y cyd	2
Gwaith Cyngor yr Ysgol	2
Cyfleoedd cyfartal	2

Roedd yr holl nodweddion da eraill ar gyfer ysgolion unigol:

- Datblygiad / darpariaeth foesol (a chymdeithasol)
- Cyfleoedd ar gyfer cydweithredu / cydweithio
- Ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a'r dreftadaeth leol
- Cyfraniadau pynciau eraill at ddatblygiad YMCD
- Staff / Oedolion fel patrymau ymddwyn
- Gofynion statudol ar gyfer AG
- Datblygiad personol

O ran nodweddion negyddol, nodwyd y meysydd canlynol sy'n peri pryder mewn Adroddiadau Arolygu ar gyfer YMCD ar gyfer dwy ysgol neu fwy:

<i>Nodweddion negyddol a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu</i>	<i>Ysgolion</i>
Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig	6
Cynnydd disgyblion / Ennill sgiliau / hyder / sgiliau	3
Ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a'i hyrwyddo	2
Cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd	2

Roedd yr holl feysydd sy'n peri pryder ar gyfer ysgolion unigol:

- Gofynion statudol ar gyfer AG
- Gradd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 / Darpariaeth ar gyfer Datblygiad YMCD
- Cyfleoedd i fyfyrion
- Gweithgareddau / cyfleoedd allgyrsiol
- Datblygiad ysbrydol
- Dinasyddiaeth fyd-eang / addysg byd / cysylltiadau rhyngwladol

Megis gydag AG, mae'r llythyr a anfonir i ysgolion ar ôl ystyried eu Hadroddiad Arolygu, yn canmol yr arfer da o ran y ddarpariaeth YMCD ac addoli ar y cyd, yn cynnig help i ysgolion o ran meysydd sy'n peri pryder neu ddiffygion, ac yn awgrymu bod ysgolion yn ystyried eu sefyllfa hefyd mewn perthynas â'r materion sy'n peri pryder a godwyd yn holl adroddiadau'r sesiwn hwnnw. Mae ysgolion wedi cael y drefn hon yn werthfawr a defnyddiol.

#### Ymweliadau Adolygiad Cefnogol -

Fel yr eglurwyd yn yr adran AG, nid oedd dim ymweliadau adolygiad cefnogol ag ysgolion yn ystod y flwyddyn.

## **Dogfennau Cyfarwyddyd**

Roedd cyfarwyddyd wedi'i roi o'r blaen ar addoli ar y cyd – yn cynnwys y cyhoeddiad *That's the Spirit* ar ddatblygiad ysbrydol yn yr ysgol a'r cwricwlwm a ddsbarthwyd i bob un o'r athrawon ar y gyflogres – ac atgoffwyd ysgolion o bryd i'w gilydd o fodolaeth y cyfarwyddyd.

## **Adnoddau a argymhellwyd**

Mae'r dogfennau cyfarwyddyd y cyfeiriwyd atynt uchod yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau a werthfawrogwyd ac a argymhellwyd neu a werthuswyd gan athrawon mewn swydd. Cynigir cyngor ychwanegol gan yr Arolygydd/ Ymgynghorydd drwy ymweliadau ag ysgolion, pa un ai drwy ymweliadau cymorth cynlluniedig, neu sesiynau HMS penodol yn yr ysgol. Yn ogystal, cynigir cyngor mewn ymateb i geisiadau penodol. Hefyd, hysbysir ysgolion o adnoddau drwy'r Newyddion AG sy'n cael ei ddsbarthu i bob ysgol, ac maent yn cael defnyddio adnoddau Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Bangor hefyd.

## **HMS ar gyfer Addoli ar y Cyd**

Nid oes dim cyrsiau wedi'u darparu oherwydd nad oedd meini prawf y Cyllid Gwell Ysgolion yn galluogi i gyrsiau o'r fath gael eu cyllido.

## **Gwerthuso effeithiolrwydd cyfarwyddyd**

Nid oes dim gwerthusiad ffurfiol o'r deunydd cyfarwyddyd gwreiddiol wedi'i wneud, ond mae ymatebion gan ysgolion i'r deunyddiau, a sylwadau a gynigiwyd drwy ymweliadau ysgolion wedi dangos faint y mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi'r deunyddiau, ac wedi'u defnyddio wrth gynllunio a gwella eu darpariaeth. Nid yw gwerthuso'r Datblygiad Ysbrydol yn yr Ysgol a'r llyfr Cwricwlwm wedi digwydd eto.

## **Penderfyniadau**

Nid oedd dim ceisiadau am benderfyniad wedi'u gwneud i CYSAG.

### **3) Materion Eraill**

#### **a) Lleol**

(i) Rhwydwaith Dysgu 14 – 19 ac AG.

Mewn ymateb i awgrym gan Gymdeithas CYSAG Cymru, roedd Cydlynnydd Rhwydwaith Dysgu 14 - 19 Sir Ddinbych wedi'i wahodd i fynychu cyfarfod CYSAG, ac roedd wedi hysbysu'r aelodau o'r prosesau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â'r Cwricwlwm 14 - 19, a lle AG o'i fewn. Teimlai'r aelodau y bu hwn yn gyfarfod addysgiadol, ac roeddynt yn falch nad oedd AG yn cael ei hymyleiddio. Cytunwyd y byddai aelod o CYSAG yn cael ei wahodd i rai o gyfarfodydd y Rhwydwaith Dysgu fel sylwedydd. Sut bynnag, roedd hi'n siomedig na ddigwyddodd hyn yn ystod y flwyddyn.

(ii) Arolygydd/Ymgynghorydd AG – Ymweliad ag Uganda

Hysbyswyd yr aelodau drwy gyflwyniad Power Point o ymweliad yr Arolygydd/ Ymgynghorydd AG ag Uganda i:

- wneud rhywfaint o waith ymarferol mewn nifer o ysgolion;
- drosglwyddo deunyddiau ac adnoddau addysgu y talwyd amdanynt drwy arian a godwyd gan rai o ysgolion Sir Ddinbych;
- gweinyddu mewn priodas Ugandaidd;
- cymryd rhan mewn nifer o wasanaethau a gweithgareddau eglwys; a
- chynorthwyo mewn prosiect plant y stryd

(iii) Cynrychiolaeth ar CYSAG

Ysgrifennwyd llythyrau at enwadau ac at Bwyllgor Cyd-drafod Athrawon Sir Ddinbych ynglŷn â swyddi gwag ar CYSAG. Mewn ymdrech arbennig i gael cynrychiolaeth i'r enwadau crefyddol, anfonwyd llythyr hefyd at Gyngor Ffederal yr Eglwysi Rhyddion yng Nghymru, a oedd wedi cynnig defnyddio eu cysylltiadau i gynorthwyo CYSAGau wrth lenwi swyddi gwag.

#### **b) Cenedlaethol**

(i) Estyn:

Derbyniwyd a dadansoddwyd Adroddiadau Arolygu ar ysgolion, fel yr adroddwyd.

(ii) APADGOS:

Roedd y CYSAG wedi'i hysbysu o ddatblygiadau a mentrau yr ymgwymerwyd â hwy gan neu drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Rhoddodd yr Aelodau ganmoliaeth arbennig i'r Gynhadledd Genedlaethol mewn AG 14 – 19 a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda yn y Fflint a Chaerdydd, y Ddogfen

Gyfarwyddyd 14 – 19 ar gyfer AG, a'r cynlluniau ar gyfer Safoni Cyfnod Allweddol 3 mewn AG sy'n cael ei reoli gan CBAC ar ran APADGOS.

(iii) CCYSAGC

Roedd aelodau CYSAG a'r AALI wedi'u cynrychioli yn holl gyfarfodydd CCYSAGC, ac wedi derbyn rhai o'r cyflwyniadau a oedd wedi'u rhoi. Roedd CYSAG yn dal i dderbyn adroddiadau gan gynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas, a hefyd yn derbyn cofnodion a phapurau gan CCYSAGC. Roedd Sir Ddinbych yn falch o groesawu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Wild Pheasant yn Llangollen ym mis Mehefin.

(iv) Cwynion

Ni dderbyniwyd dim cwynion gan y CYSAG

**4. Atodiadau:**

**a) Cyfansoddiad CYSAG**

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol:**

Yr Eglwys yng Nghymru

Sylvia Harris  
Elaine Wright

Pabyddol

Mary Ludenbach  
Disgwylir enwebiad

Undeb y Bedyddwyr

Disgwylir enwebiad (Cymraeg)  
Disgwylir enwebiad (Saesneg)

Presbyteriaid

Parch. Brian H Jones (Cymraeg)  
Mary Colbert (Saesneg)

Methodist

Heulwen Ellis

Diwygiedig Unedig

Michael Hatch

Undeb yr Annibynwyr Cymreig

B Wyn Evans

Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion

R Elms

Byddin yr Iachawdwriaeth

Capten Angela Tucker

Mudiad Efengylaidd Cymru

Parch. Philip J Collinson (tan Fehefin'09)  
Disgwylir enwebiad

## **Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon:**

Pennaeth Uwchradd  
Roger Hayward (tan Fehefin 09)

Pennaeth Iau  
*Disgwyllir enwebiad*

Arbenigwyr AG Uwchradd  
Cate Harmsworth

Pennaeth Babanod  
Linda Lineker

Athrawon Ysgolion Arbennig  
Isobel Barros-Curtis

Athro Ystafell Ddosbarth Iau  
Maxine Bradshaw

Athro Ystafell Ddosbarth Babanod  
Mairwenna Lloyd

## **Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorydd M M Jones  
Cynghorydd C L Hughes  
Cynghorydd G A Jones

Cynghorydd G C Evans  
Cynghorydd J Yorke  
Cynghorydd J A Davies

## **Aelodau Cyfetholedig**

Canolfan Genedlaethol AG:  
Tania ap Siôn

REMW:  
*Disgwyllir enwebiad*

## **b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd**

**8 Hydref 2008**  
**4 Chwefror 2009**  
**8 Mehefin 2009**

## **c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad**

APADGOS  
Holl ysgolion a cholegau'r AALI  
Canolfan Genedlaethol AG  
Pob AALI yng Nghymru  
Esgobaeth Llanelwy  
Esgobaeth Bangor  
Esgobaeth Wrecsam  
Coleg y Drindod Caerfyrddin  
Y Gynghrair Efengylaidd  
CCYSAGC

d) Tystiolaeth â ffocws: Ystadegau

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1*  
Denbighshire Schools – Table 1

**CANLYNIADAU TGAU 2008: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**GCSE RESULTS 2008: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm/Totals</i>	<i>% Carfan Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	17	10.3	2	11.8	5	29.4	3	17.6	2	11.8	2	11.8	1	5.9	2	11.8	0	0.0	0	0.0	<b>70.6</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	16	12.2	0	0.0	2	12.5	2	12.5	7	43.8	2	12.5	1	6.3	2	12.5	0	0.0	0	0.0	<b>68.8</b>	<b>100</b>
Prestatyn	141	46.2	10	7.1	23	16.3	48	34.0	28	19.9	15	10.6	11	7.8	5	3.5	0	0.0	1	0.7	<b>77.3</b>	<b>99.3</b>
Dinas Bran	4	2.0	1	25.0	1	25.0	2	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
Brynhyfryd	6	3.1	0	0.0	1	16.7	3	50.0	2	33.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	5	2.2	1	20.0	2	40.0	2	40.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Ben. Ed Jones Bl. Ed Jones</i>	52	65.8	2	3.8	5	9.6	6	11.5	16	30.8	8	15.4	9	17.3	5	9.6	1	1.9	0	0.0	<b>55.8</b>	<b>100</b>
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	47	85.5	14	29.8	18	38.3	8	17.0	6	12.8	1	2.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>97.9</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	288		30	10.4	57	19.8	74	25.7	61	21.2	28	9.7	22	7.6	14	4.9	1	0.4	0	0.0	<b>77.1</b>	<b>99.7</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	288		30	10.4	87	30.2	161	55.9	222	77.1	250	86.8	272	94.4	286	99.3	287	99.7	288	100	<b>77.1</b>	<b>99.7</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	8137		826	10.2	2416	29.7	4306	52.9	5858	72.0	6801	83.6	7416	91.1	7803	95.9	8034	98.7	8137	100	<b>72.0</b>	<b>98.7</b>

**Ysgolion Sir Ddinbych – TABL 2**  
**Denbighshire Schools – Table 2**

**CANLYNIADAU TGAU 2008 BECHGYN – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**GCSE RESULTS 2008 BOYS – RELIGIOUS STUDIES**

<b>Ysgolion/ Schools</b>	<b>Cyfanswm Totals</b>	<b>% Carfan/ Cohort</b>	<b>A*</b>	<b>%</b>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>F</b>	<b>%</b>	<b>G</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>% A* C</b>	<b>% A* G</b>
<i>Dinbych</i> Denbigh	6	6.5	1	16.7	2	33.3	1	16.7	2	33.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	1	1.6	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
Prestatyn	68	46.9	1	1.5	14	20.6	24	35.3	15	22.1	8	11.8	3	4.4	3	4.4	0	0.0	0	0.0	<b>79.4</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	1	1.1	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
Brynhyfryd	4	4.2	0	0.0	0	0.0	2	50.0	2	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0																					
<i>Ben. Ed Jones</i> Bl. Ed Jones	25	54.3	1	4.0	1	4.0	3	12.0	10	40.0	3	12.0	4	16.0	2	8.0	1	4.0	0	0.0	<b>60.0</b>	<b>100</b>
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	0																					
<i>Cyfanswm AALL</i> LEA Totals	105		3	2.9	17	16.2	31	29.5	30	28.5	11	10.5	7	6.7	5	4.7	1	1.0	0	0.0	<b>77.1</b>	<b>100</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	105		3	2.9	20	19.0	51	48.6	81	77.1	92	87.6	99	94.3	104	99.0	105	100	105	100	<b>77.1</b>	<b>100</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	<b>3086</b>		<b>235</b>	<b>7.6</b>	<b>734</b>	<b>23.8</b>	<b>1407</b>	<b>45.6</b>	<b>2029</b>	<b>65.7</b>	<b>2444</b>	<b>79.2</b>	<b>2728</b>	<b>88.4</b>	<b>2897</b>	<b>93.9</b>	<b>3026</b>	<b>98.1</b>	<b>3086</b>	<b>100</b>	<b>65.7</b>	<b>98.1</b>



*Ysgolion Sir Ddinbych* **TABLE 3**  
Denbighshire Schools **TABLE 3**

**CANLYNIADAU TGAU 2008 MERCHED – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**GCSE RESULTS 2008: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES**

<i>Ysgolion/</i> <b>Schools</b>	<i>Cyfan</i> <i>swm/</i> <b>Totals</b>	<i>%</i> <i>Carfan</i> <i>Cohort</i>	<b>A*</b>	<b>%</b>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>F</b>	<b>%</b>	<b>G</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>%</b> <b>A* - C</b>	<b>%</b> <b>A* - G</b>
<i>Dinbych</i> Denbigh	11	15.1	1	9.1	3	27.3	2	18.2	0	0.0	2	18.2	1	9.1	2	18.2	0	0.0	0	0.0	<b>54.5</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	15	22.4	0	0.0	2	13.3	2	13.3	6	40.0	2	13.3	1	6.7	2	13.3	0	0.0	0	0.0	<b>66.7</b>	<b>100</b>
Prestatyn	73	45.6	9	12.3	9	12.3	24	32.9	13	17.8	7	9.6	8	11.0	2	2.7	0	0.0	1	1.4	<b>75.3</b>	<b>98.6</b>
Dinas Bran	3	2.8	1	33.3	1	33.3	1	33.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
Brynhyfryd	2	2.1	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rbyl/</i> Rhyl	5	4.7	1	20.0	2	40.0	2	40.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Ben. Ed</i> <i>Jones/Bl. Ed</i> Jones	27	81.8	1	3.7	4	14.8	3	11.1	6	22.2	5	18.5	5	18.5	3	11.1	0	0.0	0	0.0	<b>51.9</b>	<b>100</b>
<i>Santes Ffraid/</i> St Brigids	47	85.5	14	29.8	18	38.3	8	17.0	6	12.8	1	2.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>97.9</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm</i> AALL LEA Totals	183		27	14.8	40	21.8	43	23.5	31	17.0	17	9.3	15	8.2	9	5.0	0	0.0	1	0.5	<b>77.0</b>	<b>99.5</b>
<i>Cronnol</i> Cumulative	183		27	14.8	67	36.6	110	60.1	141	77.0	158	86.3	173	94.5	182	99.5	182	99.5	183	100	<b>77.0</b>	<b>99.5</b>
<i>Cymru Gyfan</i> All Wales	5051		591	11.7	1682	33.3	2899	57.4	3829	75.8	4357	86.3	4688	92.8	4906	97.1	5008	99.1	5051	100	<b>75.8</b>	<b>99.1</b>

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4*  
Denbighshire Schools – Table 4

**CANLYNIADAU TGAU 2008 PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL: CWRS BYR**  
**GCSE RESULTS 2008: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	<i>% Carfan Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	58	35.2	2	3.4	11	19.0	14	24.1	7	12.1	10	17.2	6	10.3	4	6.9	1	1.7	3	5.2	<b>58.6</b>	<b>94.8</b>
Glan Clwyd	17	13.0	0	0.0	1	5.9	3	17.6	7	41.2	2	11.8	1	5.9	2	11.8	1	5.9	0	0.0	<b>64.7</b>	<b>100</b>
Prestatyn	14	4.6	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	14.3	4	28.6	1	7.1	3	21.4	4	28.6	0	0.0	<b>14.3</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	106	54.1	0	0.0	6	5.7	8	7.5	16	15.1	28	26.4	38	35.8	5	4.7	3	2.8	2	1.9	<b>28.3</b>	<b>98.1</b>
Brynhyfryd	6	3.2	1	16.7	2	33.3	1	16.7	2	33.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	197	84.9	2	1.0	3	1.5	22	11.2	38	19.3	30	15.2	38	19.3	35	17.8	22	11.2	7	3.6	<b>33.0</b>	<b>96.4</b>
<i>Ben. Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	16	20.3	0	0.0	0	0.0	2	12.5	1	6.3	2	12.5	4	25.0	2	12.5	4	25.0	1	6.3	<b>18.8</b>	<b>93.8</b>
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	53	96.4	12	22.6	12	22.6	14	26.4	13	24.5	1	1.9	1	1.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>96.2</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm AALI LEA Totals</i>	467		17	3.6	35	7.5	64	13.7	86	18.6	77	16.4	89	19.0	51	10.9	35	7.5	13	2.8	<b>43.3</b>	<b>97.4</b>
<i>Cronnol/ Cumulative</i>	467		17	3.6	52	11.1	116	24.8	202	43.3	279	59.7	368	78.8	419	89.7	454	97.4	467	100	<b>43.3</b>	<b>97.4</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	<b>16225</b>		<b>1284</b>	<b>7.9</b>	<b>3420</b>	<b>21.1</b>	<b>6486</b>	<b>40.0</b>	<b>9684</b>	<b>59.7</b>	<b>11992</b>	<b>73.9</b>	<b>13824</b>	<b>85.2</b>	<b>15083</b>	<b>93.0</b>	<b>15799</b>	<b>97.4</b>	<b>16225</b>	<b>100</b>	<b>59.7</b>	<b>100</b>

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 5*      **CANLYNIADAU TGAU 2008 BECHGYN – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL: CWRS BYR**  
**Denbighshire Schools – Table 5**      **GCSE RESULTS 2008: BOYS RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfan swm Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	<b>A*</b>	<b>%</b>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>F</b>	<b>%</b>	<b>G</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>% A* - C</b>	<b>% A* - G</b>
<i>Dinbych Denbigh</i>	26	28.7	2	7.7	4	15.4	6	23.1	4	15.4	3	11.5	3	11.5	1	3.8	0	0.0	3	11.5	<b>61.5</b>	<b>88.5</b>
Glan Clwyd	1	1.6	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>0.0</b>	<b>100</b>
Prestatyn	5	3.4	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	40.0	3	60.0	0	0.0	<b>0.0</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	41	46.1	0	0.0	2	4.9	4	9.7	5	12.2	6	14.6	19	46.3	2	4.9	2	4.9	1	2.4	<b>26.8</b>	<b>97.6</b>
Brynhyfryd	4	4.2	0	0.0	1	25.0	1	25.0	2	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	97	77.0	0	0.0	0	0.0	7	7.2	14	14.4	17	17.5	23	23.7	20	20.6	12	12.4	4	4.1	<b>21.6</b>	<b>95.9</b>
<i>Ben. Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	13	28.3	0	0.0	0	0.0	2	15.4	1	7.7	1	7.7	3	23.1	2	15.4	3	23.1	1	7.7	<b>23.1</b>	<b>92.3</b>
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	0																					
<i>Cyfanswm AAL LEA Totals</i>	187		2	1.1	7	3.7	20	10.7	26	13.9	28	15.0	48	25.7	27	14.4	20	10.7	9	4.8	<b>29.4</b>	<b>95.2</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	187		2	1.1	9	4.8	29	15.5	55	29.4	83	44.4	131	70.1	158	84.5	178	95.2	187	100	<b>29.4</b>	<b>95.2</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	7712		437	5.7	1239	16.1	2581	33.5	4119	53.4	5308	68.8	6297	81.7	7021	91.0	7444	96.5	7712	100	<b>53.4</b>	<b>96.5</b>

*Ysgolion Sir Ddinbych - Tabl 6*  
Denbighshire Schools – Table 6

**CANLYNIADAU TGAU 2008: MERCHED – ADDYSG GREFYDDOL: CWRS BYR**  
**GCSE RESULTS 2008: GIRLS – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A*-C</i>	<i>% A*-G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	32	43.8	0	0.0	7	21.9	8	25.0	3	9.4	7	21.9	3	9.4	3	9.4	1	3.1	0	0.0	<b>56.3</b>	<b>100</b>
<i>Glan Clwyd</i>	16	23.9	0	0.0	1	6.3	3	18.7	7	43.8	1	6.3	1	6.3	2	12.5	1	6.3	0	0.0	<b>68.8</b>	<b>100</b>
<i>Prestatyn</i>	9	5.6	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	22.2	4	44.4	1	11.1	1	11.1	1	11.1	0	0.0	<b>22.2</b>	<b>100</b>
<i>Dinas Bran</i>	65	60.7	0	0.0	4	6.2	4	6.2	11	17.0	22	33.8	19	29.2	3	4.6	1	1.5	1	1.5	<b>29.2</b>	<b>98.5</b>
<i>Brynhyfryd</i>	2	2.1	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	100	94.3	2	2.0	3	3.0	15	15.0	24	24.0	13	13.0	15	15.0	15	15.0	10	10.0	3	3.0	<b>44.0</b>	<b>97.0</b>
<i>Ben. Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	3	9.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	33.3	1	33.3	0	0.0	1	33.3	0	0.0	<b>0.0</b>	<b>100</b>
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	53	96.4	12	22.6	12	22.6	14	26.4	13	24.5	1	1.9	1	1.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>96.2</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	280		15	5.3	28	10.0	44	15.7	60	21.4	49	17.4	41	14.6	24	8.5	15	5.3	4	1.4	<b>52.5</b>	<b>98.6</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	280		15	5.3	43	15.3	87	31.0	147	52.5	196	70.0	237	84.6	261	93.2	276	98.6	280	100	<b>52.5</b>	<b>98.6</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	8513		847	9.9	2181	25.6	3905	45.9	5565	65.4	6684	78.5	7527	88.4	8062	94.7	8355	98.1	8513	100	<b>65.4</b>	<b>98.1</b>

**Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH TAG 2008: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2008: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

<b>Ysgolion Schools</b>	<b>Cyfans wm Totals</b>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>% A - C</b>	<b>% A - E</b>
<i>Dinbych Denbigh</i>	14	3	21.4	4	28.6	2	14.3	5	35.7	0	0.0	0	0.0	<b>64.3</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	8	2	25.0	2	25.0	2	25.0	2	25.0	0	0.0	0	0.0	<b>75.0</b>	<b>100</b>
Prestatyn	26	1	3.8	9	34.6	9	34.6	6	23.1	1	3.8	0	0.0	<b>34.6</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	0														
Brynhyfryd	8	4	50.0	2	25.0	2	25.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0														
<i>Ben. Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0														
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	7	3	42.9	1	14.3	3	42.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	63	13	20.6	18	28.6	18	28.6	13	20.6	1	1.6	0	0.0	<b>77.8</b>	<b>100</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	63	13	20.6	31	49.2	49	77.8	62	98.4	63	100	63	100	<b>77.8</b>	<b>100</b>
<b><i>Cymru Gyfan All Wales</i></b>	<b>1016</b>	<b>219</b>	<b>21.6</b>	<b>494</b>	<b>48.6</b>	<b>769</b>	<b>75.7</b>	<b>935</b>	<b>92.0</b>	<b>1000</b>	<b>98.4</b>	<b>1016</b>	<b>100</b>	<b>75.7</b>	<b>98.4</b>

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 8 – CANLYNIADAU SAFON UWCH TAG 2008: BECHGYN – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*  
**Denbighshire Schools – Table 8 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2008: BOYS – RELIGIOUS STUDIES**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfan swm Totals</i>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>% A - C</b>	<b>% A - E</b>
<i>Dinbych Denbigh</i>	6	0	0.0	2	33.3	1	16.7	3	50.0	0	0.0	0	0.0	<b>50.0</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	0														
Prestatyn	6	0	0.0	2	33.3	2	33.3	2	33.3	0	0.0	0	0.0	<b>66.7</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	0														
Brynhyfryd	0														
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>	0														
<i>Ben. Ed Jones Bl. Ed Jones</i>	0														
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	0														
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	12	0	0.0	4	33.3	3	25.0	5	41.7	0	0.0	0	0.0	<b>58.3</b>	<b>100</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	12	0	0.0	4	33.3	7	58.3	12	100	12	100	12	100	<b>58.3</b>	<b>100</b>
<i>Cymru Gyfan All Wales</i>	<b>220</b>	<b>36</b>	<b>16.4</b>	<b>93</b>	<b>42.3</b>	<b>148</b>	<b>67.3</b>	<b>191</b>	<b>86.8</b>	<b>216</b>	<b>98.2</b>	<b>220</b>	<b>100</b>	<b>67.3</b>	<b>98.2</b>

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 9 – CANLYNIADAU SAFON UWCH TAG 2008: MERCHED – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*  
**Denbighshire Schools – Table 9 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2008: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES**

<b>Ysgolion Schools</b>	<b>Cyfan swm Totals</b>	<b>A</b>	<b>%</b>	<b>B</b>	<b>%</b>	<b>C</b>	<b>%</b>	<b>D</b>	<b>%</b>	<b>E</b>	<b>%</b>	<b>U</b>	<b>%</b>	<b>% A - C</b>	<b>% A - E</b>
<i>Dinbych Denbigh</i>	8	3	37.5	2	25.0	1	12.5	2	25.0	0	0.0	0	0.0	<b>75.0</b>	<b>100</b>
Glan Clwyd	8	2	25.0	2	25.0	2	25.0	2	25.0	0	0.0	0	0.0	<b>75.0</b>	<b>100</b>
Prestatyn	20	1	5.0	7	35.0	7	35.0	4	20.0	1	5.0	0	0.0	<b>75.0</b>	<b>100</b>
Dinas Bran	0														
Brynhyfryd	8	4	50.0	2	25.0	2	25.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0														
<i>Ben. Ed Jones/ Bl. Ed Jones</i>	0														
Santes Ffraid/ St Brigids	7	3	42.9	1	14.3	3	42.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	<b>100</b>	<b>100</b>
<i>Cyfanswm AALL</i>															
LEA Totals	43	13	25.5	14	27.4	15	29.4	8	15.6	1	2.0	0	0.0	<b>82.4</b>	<b>100</b>
<i>Cronnol Cumulative</i>	51	13	25.5	27	52.9	42	82.4	50	98.0	51	100	51	100	<b>82.4</b>	<b>100</b>
<b><i>Cymru Gyfan All Wales</i></b>	<b>796</b>	<b>183</b>	<b>23.0</b>	<b>401</b>	<b>50.4</b>	<b>621</b>	<b>78.0</b>	<b>744</b>	<b>93.5</b>	<b>784</b>	<b>98.5</b>	<b>796</b>	<b>100</b>	<b>78.0</b>	<b>98.5</b>

**Cyngor Sir Ddinbych**  
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**  
**(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:

12fed Hydref 2009

Eitem ar y  
Rhaglen:

**9**

Manylion yr adroddiad

*Cefndir yr adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAG Cymru ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau sy'n mynychu, copiau o gofnodion ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.

*Diben yr Adroddiad:*

Hysbysu'r aelodau o ffocws a phrif ddeilliannau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn y cyflwyniadau llafar.
- Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf.